

Blaenau Gwent Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2020 - 2024

“Cymru sy’n fwy cyfartal”



Blaenau Gwent Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2020-24

Mae'r ddogfen hon (gan gynnwys fersiwn hawdd ei deall) ar gael yn electronig ar wefan y Cyngor:

<https://www.blaenau-gwent.gov.uk/cy/cyngor/cydraddoldeb-ar-gymraeg/gwybodaeth-a-chyngor-cydraddoldeb/>

Mae copïau caled ym mhob un o lyfrgelloedd lleol Blaenau Gwent. Os hoffech y ddogfen hon mewn fformat gwahanol, e.e. print bras, Braille, fersiwn sain ac ati, cysylltwch â:

Polisi a Phartneriaethau

Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Swyddfeydd Bwrdeisiol

Canolfan Ddinesig

Glynebwy

Blaenau Gwent

NP23 6XB

Ffôn: 01495 355935

E-bost: pps@blaenau-gwent.gov.uk



*This document is available in English
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg*



Cynnwys

	Tudalen
Croeso	<u>1</u>
Crynodeb o'n Hamcanion Cydraddoldeb	<u>3</u>
Cyflwyniad	<u>4-8</u>
Amcan Cydraddoldeb: Byddwn yn sefydliad sy'n sicrhau bod tegwch a chydraddoldeb ym mhopeth a wnawn	<u>9-10</u>
Amcan Cydraddoldeb: Byddwn yn gyflogwr cyfle cyfartal gyda gweithlu sy'n gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth	<u>11-13</u>
Amcan Cydraddoldeb: Byddwn yn cefnogi plant a phobl ifanc, yn enwedig y rheiny â nodweddion gwarchoddedig, i gyflawni eu huchelgeisiau dysgu	<u>14-16</u>
Amcan Cydraddoldeb: Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi cymunedau diogel, cyfeillgar a chydlynol	<u>17-18</u>
Amcan Cydraddoldeb: Byddwn yn sicrhau bod pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli eu buddiannau yn cael eu cynnwys mewn modd ystyrlon	<u>19-20</u>
Amcan Cydraddoldeb: Byddwn yn ymdrechu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a achosir gan dlodi ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig	<u>21-22</u>
Monitro ac adolygu ein cynllun	<u>23</u>
 Dogfennau Ategol	
Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent	<u>25-27</u>
Deall ein dyletswyddau penodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010	<u>28-31</u>
Trosolwg o Flaenau Gwent	<u>32-40</u>
Bodloni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)	<u>41-42</u>
Bodloni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd	<u>43</u>
Datblygu ein hamcanion a chynllun cydraddoldeb	<u>44-46</u>
Ymgysylltu â phobl a'u cynnwys	<u>47-53</u>
Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb	<u>54-69</u>

Croeso

Rydym yn falch o gyflwyno trydydd **Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24** Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent. Dyma gynllun sy'n nodi sut y byddwn yn cyflawni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010.

Mae rhoi tegwch a chydraddoldeb wrth wraidd popeth a wnawn yn ganolog i'r gwaith o sicrhau'r canlyniadau llesiant mwyaf posibl i'n preswylwyr, ein cymunedau lleol, ein staff a'n hymwelwyr, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Rydym yn cydnabod bod gennym ni, fel darparwyr gwasanaethau cyhoeddus, ran allweddol i'w chwarae wrth wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau pobl. Felly, byddwn yn parhau i ymdrechu i fod yn sefydliad 'teg a chyfiawn' fel yr amlinellir yng **Nghynllun Corfforaethol 2018-22**.

I gyflawni hyn, mae ein cynllun yn nodi'r camau allweddol y byddwn yn eu cymryd dros y pedair blynedd nesaf i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb ar draws Blaenau Gwent. Mae'r camau'n adeiladu ar y cynnydd rydym eisoes wedi'i wneud a byddant yn parhau i'n cefnogi i alluogi newid ystyrlon.

Hoffem ddiolch i bawb sydd wedi chwarae rhan weithredol yn y prosesau ymgysylltu i ddatblygu'r cynllun hwn ac edrychwn ymlaen at weithio gyda chi i'w wneud yn llwyddiant.



Y Cynghorydd Nigel Daniels
Arweinydd y Cyngor



Michelle Morris
Rheolwr Gyfarwyddwr

Crynodeb o'n Hamcanion Cydraddoldeb

Byddwn yn sefydliad sy'n sicrhau bod tegwch a chydaddoldeb ym mhopeth a wnawn.

Byddwn yn gyflogwr cyfle cyfartal gyda gweithlu sy'n gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Byddwn yn cefnogi plant a phobl ifanc, yn enwedig y rheiny â nodweddion gwarchoddedig, i gyflawni eu huchelgeisiau dysgu.

Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi cymunedau diogel, cyfeillgar a chydlynol.

Byddwn yn sicrhau bod pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli eu buddiannau yn cael eu cynnwys mewn modd ystyrlon.

Byddwn yn ymdrechu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a achosir gan dlodi ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Cyflwyniad

Bodloni Deddf Cydraddoldeb 2010

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (y Ddeddf), mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i baratoi a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac amcanion cydraddoldeb bob pedair blynedd. Wrth ddatblygu'r cynllun, mae dyletswydd arnom hefyd i gynnwys pobl, gan gynnwys y rhai a ddiogelir gan y Ddeddf, sydd â diddordeb yn swyddogaethau'r Cyngor.

Nod y Ddeddf yw rhoi tegwch wrth galon cymdeithas ac mae'n ddeddf sy'n amddiffyn pobl oherwydd:

Oedran – Rhywun sy'n perthyn i oedran penodol (e.e. pobl 32 oed) neu ystod o oedrannau (e.e. pobl ifanc 18–30 oed).

Anabledd – Er enghraifft, nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn hwnnw i gyflawni gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd.

Ailbennu rhywedd – Er enghraifft, trawsryweddol. Pobl a gafodd eu geni i'w corff ac sy'n teimlo nad yw'n iawn iddyn nhw. Gallai hyn olygu eu bod am newid o fod yn fenyw i fod yn ddyn, neu o fod yn ddyn i fod yn fenyw.

Priodas a phartneriaethau sifil – Diffinnir priodas fel 'undeb rhwng dyn a menyw'. Mae partneriaethau sifil yn berthnasol rhwng cyplau o'r un rhyw a gydnabyddir yn gyfreithiol. Rhaid trin partneriaid sifil yr un fath â chyplau priod mewn perthynas ag ystod eang o faterion cyfreithiol. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn berthnasol i'r nodwedd hon, ond dim ond o ran y gofyniad i roi sylw dyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu.

Beichiogrwydd a mamolaeth – Cyflwr bod yn feichiog, neu ddisgwyl babi. Mae mamolaeth yn cyfeirio at y cyfnod ar ôl yr enedigaeth, ac mae'n gysylltiedig ag absenoldeb mamolaeth neu dadolaeth yng nghydestun cyflogaeth. Y tu allan i'r gwaith, mae'r amddiffyniad rhag gwahaniaethu mamolaeth yn parhau am 26 wythnos ar ôl rhoi genedigaeth, ac mae'n cynnwys trin menyw yn anffafriol am ei bod yn bwydo ar y fron.

Hil – Mae hyn yn cyfeirio at grŵp o bobl a ddiffinnir gan eu hil, lliw a chenedligrwydd (gan gynnwys dinasyddiaeth), a'u gwreiddiau ethnig neu genedlaethol.

Crefydd neu gred (gan gynnwys diffyg cred) – Mae gan grefydd yr ystyr a roddir iddi fel arfer ond mae cred yn cynnwys credoau crefyddol ac athronyddol, gan gynnwys diffyg cred (e.e. anffyddiaeth). Yn gyffredinol, dylai cred effeithio ar eich dewisiadau bywyd neu'r ffordd rydych chi'n byw iddi gael ei chynnwys yn y diffiniad.

Rhyw – Dyn neu fenyw.

Cyfeiriadedd rhywiol – Bod yn heterorywiol, hoyw, lesbiaidd neu ddeurywiol.

Ein trydydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Dyma drydydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor sy'n nodi ein [hamcanion cydraddoldeb](#). Ei nod yw cryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb ar draws ein holl feysydd gwasanaeth a sicrhau canlyniadau ystyrlon i drigolion lleol, cymunedau, staff ac ymwelwyr.

Mae hefyd yn amlinellu'r camau a fwriedir gennym ar gyfer cyflawni ein dyletswyddau cyffredinol o dan **Ddyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus**, sef:

- Dileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon;
- Hyrwyddo cyfle cyfartal; a
- Meithrin cysylltiadau da.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein dyletswyddau penodol yn ein [Dogfennau Ategol](#) ar dudalen 27.

Rydym yn cydnabod fel Cyngor y bydd cyflwyno'r cynllun hwn yn llwyddiannus yn gofyn i ni gael fframwaith effeithiol ar waith sy'n cynnwys y canlynol:

- Arweinyddiaeth wleidyddol a phroffesiynol gref;
- Dull 'Un Cyngor' ar gyfer sicrhau cydraddoldeb ar draws y sefydliad;
- Nodau, amcanion a chamau gweithredu clir;
- Rhaglen ystyrlon ar gyfer cynnwys pobl ac ymgysylltu â nhw; a
- Threfniadau monitro a pherfformiad effeithiol.

Mae rhagor o wybodaeth am sut y gwnaethom ddatblygu ein cynllun, a sut yr ydym yn bwriadu monitro'r gwaith o'i gyflwyno, i'w gweld yn ein [Dogfennau Ategol](#) dudalen 43 ymlaen.

Cyflwyno ein hamcanion cydraddoldeb

Amlinellir isod ein hamcanion cydraddoldeb, sydd i gyd â statws cyfartal ac sydd i'w cyflawni ar draws pedair blynedd y cynllun:

- Byddwn yn sefydliad sy'n sicrhau bod tegwch a chydraddoldeb ym mhopeth a wnawn.
- Byddwn yn gyflogwr cyfle cyfartal gyda gweithlu sy'n gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.
- Byddwn yn cefnogi plant a phobl ifanc, yn enwedig y rheiny â nodweddion gwarchoddedig, i gyflawni eu huchelgeisiau dysgu.
- Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi cymunedau diogel, cyfeillgar a chydlynol.
- Byddwn yn sicrhau bod pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli eu buddiannau yn cael eu cynnwys mewn modd ystyrlon.
- Byddwn yn ymdrechu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a achosir gan dlodi ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Framio ein hamcanion cydraddoldeb

Mae ein hamcanion cydraddoldeb mewn 'themâu' gan ein bod yn cydnabod nad yw nifer o'r materion cydraddoldeb allweddol a nodwyd gennym wedi'u hynysu i un 'nodwedd warchoddedig' benodol. Bydd y camau a gymerwn i gyflawni'r amcanion hefyd yn sicrhau canlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol i bobl a gwmpesir gan un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig.

Mae rhagor o wybodaeth am sut yr ydym yn bwriadu bodloni gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i'w gweld yn ein [Dogfennau Ategol](#) ar dudlaen 40.

Monitro ein cynllun

Bydd monitro'r cynllun trwy ein trefniadau cynllunio busnes corfforaethol yn gam pwysig i sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio a'i ymgorffori ar draws ein harferion gwaith ac wrth inni ddarparu gwasanaethau. Trwy'r broses hon, byddwn yn ystyried yn ofalus sut y caiff cynnydd effeithiol ei wneud, ac fel rhan o'n trefniadau adolygu blynyddol byddwn yn ystyried a yw ein hamcanion yn parhau i fod yn briodol.

Gellir gweld sut yr ydym yn bwriadu monitro ac adolygu ein cynllun ar [dudalen 22](#).

Trosolwg o'r adrannau

Gellir dod o hyd i wybodaeth am bob un o'n chwe amcan cydraddoldeb rhwng tudalen 8 a 21. Mae pob amcan yn cynnwys yr is-adrannau canlynol:

- Trosolwg
- Beth mae pobl wedi'i ddweud wrthym?
- Pam mae'r amcan cydraddoldeb hwn yn bwysig?
- Pa waith da ydyn ni'n adeiladu arno?
- Rhai o'r camau allweddol y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcan cydraddoldeb hwn
- Pa wahaniaeth ydyn ni am ei wneud?

AMCAN CYDRADDOLDEB: Byddwn yn sefydliad sy'n sicrhau bod tegwch a chydraddoldeb ym mhopeth a wnawn

Trosolwg

Rydym yn cydnabod rôl bwysig y Cyngor fel darparwr gwasanaethau cyhoeddus i gryfhau a hyrwyddo cydraddoldeb ar draws Blaenau Gwent.

Er mwyn sicrhau canlyniadau ystyrlon i'n staff, ein dinasyddion, ein cymunedau lleol a'n rhanddeiliaid, mae'n rhaid i ni roi tegwch a chydraddoldeb wrth wraidd popeth a wnawn. Felly, rhaid i'r gwaith o gyflawni ein dyletswyddau cydraddoldeb fod yn 'fusnes fel arfer'. Rydym yn pwysleisio hyn yn ein Cynllun Corfforaethol 2018-22 trwy ein gwerth craidd o fod yn deg a chyfiawn.

Er mwyn cyflawni hyn, bydd angen arweinyddiaeth wleidyddol a phroffesiynol dda, ynghyd â fframwaith effeithiol ar gyfer cyflawni, ochr yn ochr â dull 'Un Cyngor'.

Beth mae pobl wedi'i ddweud wrthym?

Yn ystod ein rhaglen ffurfiol ar gyfer cynnwys pobl ac ymgysylltu â nhw, **'Dywedwch wrthym beth yw eich barn am gydraddoldebau'**, cytunoedd yr ymatebwyr yn gyffredinol fod yr amcan hwn yn bwysig. Er enghraifft, roeddent yn cydnabod bod yr amcan hwn yn hanfodol o ran cefnogi'r gwaith o gyflwyno ein cynllun yn ei gyfanrwydd dros y pedair blynedd nesaf. Dywedodd ymatebwyr wrthym hefyd fod angen i'r amcan hwn fod yn fwy na geiriau yn unig a bod **'angen i'r Cyngor ddangos yn glir'** yr hyn a gyflawnir ganddo trwy gamau ystyrlon sy'n arwain at gyflawni canlyniadau cydraddoldeb cadarnhaol. Ar ben hynny, roedd ymatebwyr yn teimlo y byddai'r amcan hwn yn cynorthwyo'r Cyngor i ddod i adnabod a deall ei breswylwyr yn well, gan awgrymu hefyd fod angen gwneud mwy o waith i hyrwyddo enghreifftiau o'r gwaith da sydd eisoes yn digwydd ar draws Blaenau Gwent i gefnogi'r agenda gydraddoldeb.

Pam mae'r amcan cydraddoldeb hwn yn bwysig?

Mae cryfhau ein harferion mewnol ac allanol presennol yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cydraddoldeb yn rhan annatod o bopeth a wnawn a'i fod yn cael ei gyflawni fel rhan o 'fusnes fel arfer'.

Pa waith da ydyn ni'n adeiladu arno?



Rhai o'r camau allweddol y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcan cydraddoldeb hwn...

- Timau arweinyddiaeth wleidyddol a phroffesiynol sy'n atebol am fod yn berchen ar y cynllun a'i gyflwyno'n effeithiol;
- Integreiddio cydraddoldeb ac amrywiaeth yn effeithiol yn ein penderfyniadau corfforaethol a strategol, trwy broses asesu'r effaith ar gydraddoldeb sydd wedi'i diweddarau;
- Gwneud cynnydd yn erbyn y gwaith o gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb trwy drefniadau cynllunio busnes y Cyngor;
- Cynnal gwaith ymchwil i nodi data a gwybodaeth briodol mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn cefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a gwneud penderfyniadau;
- Cyhoeddi ein gwybodaeth am gydraddoldeb gan ddefnyddio fformat ffynhonnell agored.

Pa wahaniaeth ydyn ni am ei wneud?

Rydym am godi proffil yr agenda gydraddoldeb a sicrhau ei bod yn cael ei phrif ffrydio'n effeithiol ar draws y sefydliad er mwyn sicrhau'r canlyniadau cydraddoldeb mwyaf posibl.

AMCAN CYDRADDOLDEB: Byddwn yn gyflogwr cyfle cyfartal gyda gweithlu sy'n gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth

Trosolwg

Rydym yn cydnabod gwerth bod yn gyflogwr cyfle cyfartal a chael ein hadnabod fel cyflogwr o ddewis. Rydym ni am gymryd y camau angenrheidiol i greu a chynnal gweithlu amrywiol gan ein bod yn cydnabod y buddion amrywiol y gall hyn eu cynnig i'r sefydliad yn ogystal â'r bobl a chymunedau lleol rydym yn eu gwasanaethu.

Rydym yn cydnabod bod cael '*gweithlu sy'n gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth*' yn hanfodol os ydym am ymgorffori cydraddoldeb fel 'busnes fel arfer' o fewn ein holl arferion gwaith. Mae hefyd yn ganolog wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni ein gwerth sefydliadol craidd o fod yn sefydliad '*teg a chyfiawn*'.

Er mwyn cyflawni'r amcan hwn, bydd angen i ni adolygu amrywiaeth gyfredol ein gweithlu a, thrwy weithio gyda'n staff, byddwn yn ceisio nodi sut a ble y gellir gwneud gwelliannau.

Wrth gyflawni'r amcan hwn, ein nod yw sicrhau bod staff newydd a phresennol yn cael yr hyfforddiant, arweiniad a chymorth priodol a bod egwyddorion allweddol y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cael eu hintegreiddio â strategaethau allweddol eraill fel y Strategaeth Datblygu'r Gweithlu.

Bydd cynnwys staff ac ennyn eu diddordeb yn allweddol wrth gefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcan llesiant hwn. Felly, byddwn yn ceisio defnyddio ein dulliau cyfathrebu sefydledig, fel sesiynau ymgysylltu â staff, digwyddiadau briffio rheolwyr a chynadleddau. Byddwn hefyd yn ceisio

ailsefydlu gweithgor cydraddoldeb ac amrywiaeth i weithredu ochr yn ochr â'n grŵp llesiant staff.

Beth mae pobl wedi'i ddweud wrthym?


Yn ystod ein rhaglen ffurfiol ar gyfer cynnwys pobl ac ymgysylltu â nhw, **'Dywedwch wrthym beth yw eich barn am gydraddoldebau'**, cytunoedd yr ymatebwyr yn gyffredinol fod yr amcan hwn yn bwysig. Dywedodd ymatebwyr wrthym fod hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant i staff yn **'bwysig iawn'** ac y dylai staff dderbyn o leiaf hyfforddiant ymwybyddiaeth sylfaenol er mwyn cefnogi amgylchedd cadarnhaol yn y gweithle, a hefyd i sicrhau bod cydraddoldeb wrth wraidd y ffordd rydym yn darparu ein gwasanaethau. Ar ben hynny, amlygodd ymatebwyr y dylai hyfforddiant arbenigol fod yn **'briodol i'r angen'**, ac y dylai gynnwys hefyd fynediad at **'gymorth a chyngor'** i sicrhau bod gan staff y gallu i ddelio â materion cydraddoldeb mewn modd cymwys, effeithlon ac effeithiol.

Pam mae'r amcan cydraddoldeb hwn yn bwysig?

Bydd yr amcan cydraddoldeb hwn yn ein helpu yn ein taith tuag at ddod yn gyflogwr cyfle cyfartal sy'n gynrychioliadol o'r bobl a chymunedau lleol rydym yn eu gwasanaethu ac sydd felly â'r gallu i gefnogi anghenion lleol yn well a sicrhau canlyniadau ystyrlon.

Ar ben hynny, bydd cael gweithlu sy'n 'gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth' yn allweddol wrth gefnogi'r gwaith o greu amgylcheddau gweithio cadarnhaol sy'n hyrwyddo diwylliant gwaith da lle mae'r holl staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u cefnogi.

Pa waith da ydyn ni'n adeiladu arno?



Rhai o'r camau allweddol y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcan cydraddoldeb hwn...

- Asesu ein sefyllfa bresennol fel 'cyflogwr cyfle cyfartal' trwy adolygu amrywiaeth ein gweithlu a nodi camau allweddol i gefnogi gwelliant;
- Profi i ba raddau mae ein gweithlu'n gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth trwy ymgysylltu â staff a'u cynnwys a nodi camau allweddol i gefnogi gwelliant;
- Nodi staff sydd angen hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant (gan gynnwys hyfforddiant sefydlu, cyffredinol ac arbenigol) a sicrhau bod cyfleoedd hyfforddi yn hygyrch;
- Gweithredu rhwydwaith llesiant i staff, gyda chynrychiolaeth o bob rhan o'r sefydliad.

Pa wahaniaeth ydyn ni am ei wneud?

Rydym am ddathlu a chydabod gwerth bod yn sefydliad amrywiol a bod â gweithlu sy'n cydnabod pwysigrwydd yr agenda gydraddoldeb i'r bobl a chymunedau lleol sy'n cael eu gwasanaethu ganddo.

AMCAN CYDRADDOLDEB: Byddwn yn cefnogi plant a phobl ifanc, yn enwedig y rheiny â nodweddion gwarchoddedig, i gyflawni eu huchelgeisiau dysgu

Trosolwg

Nodir addysg fel blaenoriaeth allweddol yn ein [Cynllun Corfforaethol 2018-22](#) ac rydym wedi ymrwymo i ‘wella canlyniadau, cynnydd a lles disgyblion, yn enwedig ar gyfer ein disgyblion mwyaf galluog a bregus’.

Credwn y dylai pawb gael mynediad priodol at gyfleoedd dysgu a’r gefnogaeth sydd ei hangen i’w galluogi i gyflawni eu huchelgeisiau dysgu, gan gydnabod bod dysgu’n darparu’r sylfaen ar gyfer rhagolygon bywyd gwell. Fodd bynnag, ffocws penodol yr amcan hwn fydd sicrhau ein bod yn cynyddu deilliannau dysgu disgyblion a gwmpesir gan un neu fwy o’r nodweddion gwarchoddedig fel y’u nodwyd yn y Ddeddf, yn enwedig lle mae bylchau mewn cyrhaeddiad addysgol yn cael eu nodi.

Er mwyn ein helpu i gyflawni hyn, byddwn yn ystyried canfyddiadau adroddiad cenedlaethol ‘*A yw Cymru’n Decach?*’ y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynghylch bylchau mewn deilliannau dysgu i ddysgwyr a ddiogelir gan y Ddeddf a byddwn yn cynnal ymchwil i benderfynu a yw’r canfyddiadau hyn yn berthnasol i ddysgwyr Blaenau Gwent ac, os felly, pa gamau y mae’n rhaid eu cymryd i gefnogi gwelliannau.

Nod allweddol arall ein Cynllun Corfforaethol 2018-22 yw darparu ‘mynediad at ddatblygu sgiliau’. Gan weithio gyda’n partneriaid, rydym hefyd yn anelu at gefnogi dysgu rhieni a gofalwyr. Mae ein dull cyfannol yn ceisio cynyddu cyfleoedd ar gyfer ffyniant i bawb fel rhan o’n hymrwymadau o dan Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Beth mae pobl wedi'i ddweud wrthym?

Yn ystod ein rhaglen ffurfiol ar gyfer cynnwys pobl ac ymgysylltu â nhw, **'Dywedwch wrthym beth yw eich barn am gydraddoldebau'**, cytunoedd yr ymatebwyr fod yr amcan hwn yn bwysig iawn.

Dywedodd ymatebwyr wrthym fod hyfforddiant cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant ar gyfer staff mewn ysgolion yn **'bwysig'** a hefyd bod cael darpariaeth addysgol ddigonol i **'gefnogi dysgwyr ag anawsterau dysgu'** yn allweddol i gefnogi disgyblion trwy bob cam datblygu. Ar ben hynny, pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd parhau i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o gydraddoldeb o fewn darpariaeth addysgol, ochr yn ochr â phwysigrwydd **'integreiddio'** yn yr ystyr **'na ddylid rhoi triniaeth arbennig i blant a phobl ifanc'** oherwydd bod ganddynt un nodwedd warchoddedig neu fwy.

Pam mae'r amcan cydraddoldeb hwn yn bwysig?

Mae'r amcan cydraddoldeb hwn yn bwysig oherwydd ei fod yn canolbwyntio ar sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael cefnogaeth lawn i gyflawni eu huchelgeisiau dysgu. Rydym yn cydnabod yr effaith y gall dysgu ei chael ar blentyn neu berson ifanc o ran ei ragolygon bywyd a'i les, ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.

Mae canolbwyntio ar wella cyrhaeddiad addysgol **'dysgwyr agored i niwed'** a'r rhai a gwmpesir gan y Ddeddf yn allweddol wrth sicrhau nad yw plant a phobl ifanc dan anfantais a bod cyfleoedd i gyflawni eu huchelgeisiau dysgu yn cael eu creu.

Mae'r amcan cydraddoldeb hwn yn bwysig gan fod darparu cyfleoedd dysgu o ansawdd ar gyfer plant a phobl ifanc yn allweddol o ran creu'r amgylcheddau dysgu cywir i alluogi pawb i gyflawni'n dda, mwynhau dysgu a theimlo'n ddiogel.

Pa waith da ydyn ni'n adeiladu arno?



Rhai o'r camau allweddol y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcan cydraddoldeb hwn...

- Rhoi cyngor ac arweiniad i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ysgolion ac adolygu cynnydd yn flynyddol;
- Cynnal gwaith ymchwil lleol i benderfynu a yw plant a phobl ifanc a gwmpesir gan y Ddeddf yn cyflawni eu huchelgeisiau dysgu yn llwyddiannus a chwmpasu camau priodol lle mae meysydd i'w gwella wedi'u nodi;
- Cyngori a llywio staff ysgol ar faterion cydraddoldeb yn ôl y gofyn.

Pa wahaniaeth ydyn ni am ei wneud?

Rydym am greu amgylcheddau dysgu diogel sy'n galluogi plant a phobl ifanc, yn enwedig y rhai sydd â nodweddion gwarchoddedig, i gyflawni eu huchelgeisiau dysgu yn llwyddiannus.

AMCAN CYDRADDOLDEB: Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi cymunedau diogel, cyfeillgar a chydlynol

Trosolwg

Fel aelod o Fwrdd Gwasanaethau Blaenau Gwent, rydym wedi ymrwymo i gefnogi 'cymunedau teg a diogel'. Gan weithio gyda'n partneriaid, rydym yn mynd ati i gefnogi datblygiad cymunedau cydlynol trwy'r Hwb Diogelwch Cymunedol.

Fel rhan o ymrwymiad Llywodraeth Cymru tuag at gydlyniant cymunedol, rydym yn aelodau o Grŵp Llywio Cydlyniant Gorllewin Gwent a byddwn yn parhau i gefnogi'r gwaith o gyflwyno'r rhaglen bwysig hon.

Gan weithio gyda'n partneriaid, byddwn yn cyflwyno gweithgareddau a phrosiectau allweddol sy'n ceisio cryfhau ysbryd cymunedol, dod â chymunedau ynghyd, a chefnogi cydnerthedd ar draws Blaenau Gwent.

Beth mae pobl wedi'i ddweud wrthym?

Yn ystod ein rhaglen ffurfiol ar gyfer cynnwys pobl ac ymgysylltu â nhw, **'Dywedwch wrthym beth yw eich barn am gydraddoldebau'**, cytunoedd yr ymatebwyr fod yr amcan hwn yn bwysig iawn.

Dywedodd ymatebwyr wrthym fod creu cymunedau diogel a chyfeillgar **'yn bwysig i bawb'** ac roedd mwy o waith i **'hyrwyddo parch a helpu i wella ysbryd cymunedol'** yn cael ei ystyried yn gadarnhaol. Ar ben hynny, dywedodd yr ymatebwyr wrthym y dylem barhau i adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn digwydd mewn ysgolion a hyrwyddo digwyddiadau fel 'Lleisiau ein Cymoedd', sy'n dod â phobl o wahanol gymunedau o bob rhan o Flaenau Gwent at ei gilydd.

Pam mae'r amcan cydraddoldeb hwn yn bwysig?

Mae creu Blaenau Gwent sy'n ddiogel a chyfeillgar yn hanfodol os ydym am greu man lle mae pawb yn teimlo eu bod yn perthyn ac yn gallu chwarae rhan weithredol mewn cymdeithas. Mae ymgymryd â gwaith i ddatblygu cymunedau cryf a bywiog yn hanfodol os ydym am greu lleoedd da i fyw lle mae pawb yn cyd-dynnu ac os ydym am gael parch a dealltwriaeth ar y cyd rhwng pobl, sy'n cefnogi mwy o ysbryd cymunedol a chydberthyn.

Pa waith da ydyn ni'n adeiladu arno?



Rhai o'r camau allweddol y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcan cydraddoldeb hwn...

- Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi'r gwaith o gyflwyno rhaglen Cydlyniant Cymunedol Gorllewin Gwent ym Mlaenau Gwent;
- Cefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ac sy'n annog pobl i gyd-dynnu;
- Cynnal ymgyrchoedd effeithiol yn y cyfryngau cymdeithasol i liniaru tensiynau cymunedol a chwalu chwedlau.

Pa wahaniaeth ydyn ni am ei wneud?

Rydym am greu cymunedau deniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da.

AMCAN CYDRADDOLDEB: Byddwn yn sicrhau bod pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli eu buddiannau yn cael eu cynnwys mewn modd ystyrlon

Trosolwg

Mae ein dull ar gyfer cynnwys pobl mewn modd ystyrlon wedi'i nodi yn Strategaeth Ymgysylltu'r Cyngor 2018-23. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cynnwys pobl yn ystyrlon, sy'n galluogi pobl, cymunedau a rhanddeiliaid i gael llais, a chael cyfleoedd gwirioneddol i weithio gyda ni i helpu i wella'r modd y darperir ein gwasanaethau.

Yn unol â'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc, byddwn yn sicrhau bod pobl a gwmpesir gan un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig yn cael cyfleoedd ystyrlon i ddylanwadu ar benderfyniadau allweddol sy'n effeithio arnynt.

Beth mae pobl wedi'i ddweud wrthym?

Yn ystod ein rhaglen ffurfiol ar gyfer cynnwys pobl ac ymgysylltu â nhw, **'Dywedwch wrthym beth yw eich barn am gydraddoldebau'**, cytunoedd yr ymatebwyr fod yr amcan hwn yn bwysig iawn. Dywedodd ymatebwyr wrthym y bydd sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed ac y gwrandewir arnynt yn helpu'r Cyngor i ddeall anghenion yn well, a fydd yn arwain at wneud penderfyniadau gwell. Dywedodd ymatebwyr wrthym y dylai'r Cyngor ennyn diddordeb pobl a chymunedau lleol a'u cynnwys mewn ffyrdd sy'n annog mwy o gyfranogiad, gan roi enghreifftiau fel *'grwpiau ymweld'* ar draws Blaenau Gwent. Roedd ymatebwyr hefyd yn teimlo y gellid gwneud mwy i ddeall *'profiadau byw'* pobl.

Pam mae'r amcan cydraddoldeb hwn yn bwysig?

Mae safbwyntiau, straeon a mewnwleidiadau pobl yn bwerus a gallant helpu i arwain at newid cadarnhaol. Mae'r amcan hwn yn bwysig gan ei fod yn ceisio sicrhau ein bod yn cynnwys pobl a chymunedau lleol yn rhagweithiol yn y gwaith a wnawn ac yn sicrhau bod pobl â nodweddion gwarchoddedig yn cael dylanwadu ar y penderfyniadau a wnawn a all gael yr effaith fwyaf arnynt.

Pa waith da ydyn ni'n adeiladu arno?



Rhai o'r camau allweddol y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcan cydraddoldeb hwn...

- Sefydlu Fforwm Cydraddoldeb 'Lleisiau ein Cymoedd';
- Cryfhau Panel Dinasyddion Cyngor Blaenau Gwent;
- Dangos ein hymrwymiad tuag at gyfranogiad plant a phobl ifanc trwy weithio mewn partneriaeth â'r sefydliad Plant yng Nghymru;
- Hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltu yn weithredol ar gyfer aelodau'r cyhoedd sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.

Pa wahaniaeth ydyn ni am ei wneud?

Rydym am ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i'n cwsmeriaid, a thrwy greu cyfleoedd ystyrlon i gydweithio â phobl a chymunedau lleol, byddwn yn gallu ymateb yn well i angen.

AMCAN CYDRADDOLDEB: Byddwn yn ymdrechu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a achosir gan dlodi ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig

Trosolwg

Disgwylir i Lywodraeth Cymru lansio Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus newydd, o'r enw'r 'ddyletswydd economaidd-gymdeithasol', a fydd yn cael ei rhoi ar gyrrff cyhoeddus a enwir, fel awdurdodau lleol, yn unol â gofynion y Ddeddf.

Ar ôl iddi ddod i rym, y bwriedir iddo fod ym mis Ebrill 2020, bydd yn ofynnol i'r Cyngor ddangos sut y bydd yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldeb a achosir gan dlodi, yn benodol pan fydd y Cyngor yn gwneud penderfyniadau mawr am y ffordd y mae'n cynllunio ac yn darparu ei wasanaethau, yn wendedig mewn meysydd fel addysg, iechyd a thai.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y ddyletswydd newydd yn ['Bodloni ein dyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd'](#) ar dudalen 42.


Beth mae pobl wedi'i ddweud wrthym?

Yn ystod ein rhaglen ffurfiol ar gyfer cynnwys pobl ac ymgysylltu â nhw, **'Dywedwch wrthym beth yw eich barn am gydraddoldebau'**, cytunoedd yr ymatebwyr fod yr amcan hwn yn bwnc pwysig iawn. Fodd bynnag, roedd ymatebwyr yn teimlo bod ein hamcan drafft arfaethedig, sef 'Byddwn yn ymdrechu i leihau tlodi', yn rhy eang ac roedd angen iddo ganolbwyntio mwy ar fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a achosir gan dlodi. Roedd pryder na fyddai'r amcan yn gyraeddadwy ac felly, mewn ymateb i adborth, gwnaethom newid geiriad yr amcan hwn yn unol â hynny i'w wneud yn fwy penodol. Gwnaeth ymatebwyr fwydo'n ôl hefyd fod y term **'tlodi'** yn aneglur ac yn anodd ei fesur, ond fe wnaethant awgrymu bod **'ystyried achosion tlodi'** yn allweddol wrth symud y gwaith hwn ymlaen.

Pam mae'r amcan cydraddoldeb hwn yn bwysig?

Fel darparwr gwasanaeth cyhoeddus, mae'n hanfodol bod y penderfyniadau mawr a wnawn yn deg a'n bod yn rhoi cyfleoedd a chyfleoedd bywyd i bobl a chymunedau lleol waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol. Bydd yr amcan hwn yn ein galluogi i gymryd camau tuag at ddatblygu gwell dealltwriaeth o anghydraddoldeb a achosir gan dlodi ac ein helpu i roi cymorth gwell i'r rhai sy'n wynebu'r peryglon mwyaf o ran bod dan anfantais.

Pa waith da ydyn ni'n adeiladu arno?



Rhai o'r camau allweddol y byddwn yn eu cymryd i gyflawni'r amcan cydraddoldeb hwn...

- Gweithio ochr yn ochr â Llywodraeth Cymru wrth baratoi i fodloni gofynion y 'ddyletswydd economaidd-gymdeithasol' newydd;
- Ymgymryd â gwaith ymchwil a dadansoddi i ddeall sefyllfa economaidd-gymdeithasol Blaenau Gwent;
- Gweithio gyda phartneriaid rhanbarthol ar raglenni allweddol i leihau anghydraddoldeb a achosir gan dlodi;
- Gweithio gyda phartneriaid ar brosiectau allweddol i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau.

Pa wahaniaeth ydyn ni am ei wneud?

Rydym am sicrhau bod y penderfyniadau a gymerwn yn deg ac yn seiliedig ar dystiolaeth o ansawdd i sicrhau bod pobl a chymunedau lleol yn cael cyfleoedd a chyfleoedd bywyd waeth beth fo'u cefndir economaidd-gymdeithasol.

Monitro ac adolygu ein cynllun

Trwy gydol cylch bywyd y cynllun, byddwn yn monitro ac yn adolygu ein cynnydd yn erbyn y camau a fwriadwyd, neu'r meysydd cyflawni a nodwyd gennym, a fydd yn ein galluogi i gyflawni ein hamcanion cydraddoldeb.

Er mwyn ein galluogi i wreiddio a phrif ffrydio ein gwaith cydraddoldeb ym mhob gwasanaeth a ddarperir gennym, bydd ein cynnydd yn cael ei adrodd yn unol â'n trefniadau rheoli perfformiad corfforaethol a bydd effeithiolrwydd a chanlyniadau cydraddoldeb yn cael eu mesur trwy ein trefniadau cynllunio busnes.

Bydd Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 hefyd yn destun adroddiadau a gwaith monitro rheolaidd trwy brosesau democrataidd y Cyngor, gyda'r adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'w oruchwylio trwy Bwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol a Phwyllgor Gweithredol y Cyngor.

Trwy gydol y broses hon, byddwn hefyd yn ystyried sut mae cynnydd yn cael ei gyflawni ar gyfer pob un o'r nodweddion gwarchodedig. Ar ben hynny, fel rhan o'n trefniadau adolygu blynyddol, a gefnogir gan Dîm Arweinyddiaeth Wleidyddol a Phroffesiynol y Cyngor, byddwn yn ystyried a yw ein hamcanion yn parhau i fod yn briodol.

Yn unol â'n dyletswyddau cydraddoldeb, byddwn hefyd yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar wefan y Cyngor, ond hefyd yn sicrhau ei fod ar gael i bartneriaid, rhanddeiliaid a dinasyddion allweddol priodol.

Blaenau Gwent

Cynllun Cydraddoldeb Strategol

2020 - 2024

Dogfennau Ategol

“Cymru sy’n fwy cyfartal”



Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn un o 22 awdurdod unedol yng Nghymru, a ffurfiwyd yn 1996 yn dilyn Deddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994. Roedd yr ardal yn flaenorol yn rhan o Gyngor Sir Gwent.

Mae Blaenau Gwent yn cynnwys 16 ward etholiadol a gynrychiolir gan 42 o aelodau (cynghorwyr) a etholir gan bobl Blaenau Gwent bob pedair blynedd. Mae'r Cyngor yn gweithredu system cabinet dan arweiniad Arweinydd y Cyngor. Mae'r cabinet yn cynnwys pum portffolio gweithredol a phum prif bwyllgor craffu, ynghyd â thri phwyllgor craffu ar y cyd.

Ceir Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol sy'n cynnwys y Rheolwr Gyfarwyddwr; tri Chyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol, Addysg, a'r Gwasanaethau Adfywio a Chymunedol; a dau Brif Swyddog ar gyfer Cyllid a'r Gwasanaethau Masnachol. Mae'r tîm yn gyfrifol am reolaeth strategol busnes y Cyngor.

Ym mis Chwefror 2020, roedd 2,887 o weithwyr cyflogedig yn y Cyngor. O'r rhain, roedd 683 (23.6%) yn ddynion a 2,204 (76.3%) yn fenywod. Mae hyn yn golygu mai'r Cyngor yw cyflogwr mwyaf Blaenau Gwent.

Dangosodd yr arolwg barn staff diweddaraf, a gynhaliwyd yn 2019 ac a gafodd ei gwblhau gan 726 o staff, fod 20% o'r rhai a gwblhaodd y cwestiwn yn ddynion a 72% yn fenywod, roedd 2% rhwng 16 a 24 oed, roedd 16% rhwng 25 a 34 oed, roedd 51% rhwng 35 a 54 oed, roedd 20% yn 55 oed neu'n hŷn, ac roedd yn well gan 11% beidio â dweud.

O gyfanswm yr ymatebwyr, dywedodd 34 (5%) wrthym fod ganddynt anabledd yn ôl diffiniad Deddf Cydraddoldeb 2010 a dywedodd 625 (87%) nad oedd ganddynt anabledd yn ôl y diffiniad hwn, ac roedd yn well gan 59 (8%) beidio â dweud.

Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2018-22 yn nodi gweledigaeth, gwerthoedd craidd a blaenoriaethau'r sefydliad ac mae'n cael ei adolygu a'i addasu bob blwyddyn. Mae hefyd yn cyfeirio at ddull 'Un Cyngor' sy'n pwysleisio'r rôl bwysig sydd gan y sefydliad cyfan o ran gweithio tuag at yr ymrwymïadau a nodir yn y cynllun hwn.

Ein Gweledigaeth Graidd

Tretadaeth Falch, Cymunedau Cryf, Dyfodol Disglair

Ein Gwerthoedd Craidd



Blaenoriaethau'r Cyngor



Nid yw ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn gynllun sy'n sefyll ar ei ben ei hun, gan gysylltu'n agos â nifer o strategaethau, cynlluniau, polisiau a fframweithiau allweddol sy'n perthyn i'r Cyngor a'i bartneriaid. Dyma rai ohonynt:

- Cynllun Llesiant Lleol Blaenau Gwent, 'Y Blaenau Gwent a Garem, 2018-2023';
- Blaenau Gwent o blaid pobl hŷn;
- Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg;
- Fframwaith Perfformiad Corfforaethol;
- Polisiau, gweithdrefnau a phrotocolau'r adran Adnoddau Dynol.

Deall ein dyletswyddau penodol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Yn ogystal â'n dyletswyddau cyffredinol, mae gan y Cyngor nifer o ddyletswyddau penodol y mae'n rhaid iddo eu hystyried. Yng Nghymru, mae'r dyletswyddau penodol wedi'u gosod gan Reoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 fel a ganlyn:

- Amcanion Cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth, gwahaniaethau rhwng cyflogau a hyfforddiant staff
- Cyflog cyfartal
- Cyflog y rhywiau
- Caffael
- Adrodd a chyhoeddi

Amcanion Cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol

Diben yr amcanion a'r cynlluniau yw galluogi cyflawni canlyniadau cydraddoldeb mesuradwy sy'n gwella bywydau unigolion a chymunedau. Mae'n ofynnol i'r Cyngor adolygu, datblygu a chyhoeddi Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol bob pedair blynedd.

Ymgysylltu

Bydd deall amrywiaeth poblogaeth Blaenau Gwent yn caniatáu i'r Cyngor lunio darpariaeth gwasanaethau yn y ffordd orau. Rhaid i'r Cyngor gynnal ymgysylltiad ystyrlon, gan gasglu gwybodaeth berthnasol wrth ymgysylltu â phobl, a chynnwys pobl sy'n cynrychioli buddiannau'r rhai sy'n rhannu un

neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig ac sydd â diddordeb yn y ffordd y mae'r Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau.

Asesu effaith

Cynhelir Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb pan fydd polisi neu arfer yn cael ei gynnig neu'n cael ei adolygu, ac mae hwn yn edrych am dystiolaeth o effaith andwyol ar bobl neu grwpiau o bobl sy'n rhannu un o'r naw nodwedd warchoddedig. Rhaid i'r Cyngor gynnal Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb ar gyfer polisiau, gweithdrefnau, swyddogaethau, darparu gwasanaethau, a chynigion arbedion ariannol.

Gellir gweld copi o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar gyfer y cynllun hwn yn y [Dogfennau Ategol](#) ar dudlaen 53.

Gwybodaeth am gydraddoldeb

Rhaid i Gynlluniau Cydraddoldeb Strategol, Amcanion Cydraddoldeb ac Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, fel y'u rhagnodir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, fod yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn. Byddai hyn yn cynnwys defnyddio ymchwil, gwybodaeth, data ac ystadegau ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol, ochr yn ochr â data ansoddol a geir trwy ymgysylltu mewn modd ystyrion ac amserol, yn enwedig ymgysylltu â phobl a gwmpesir gan y nodweddion gwarchoddedig, fel y gellir dylanwadu ar y broses o wneud penderfyniadau.

Gwybodaeth am gyflogaeth, gwahaniaethau rhwng cyflogau a hyfforddiant staff

Rhaid i'r Cyngor gasglu gwybodaeth helaeth am gyflogaeth bob blwyddyn sy'n cynnwys data ar recriwtio a chadw, dyrchafu, cyfleoedd hyfforddi, a chymau cwyno a disgyblu. Rhaid casglu'r wybodaeth hon ar gyfer **pob un** o'r nodweddion gwarchoddedig. Mae angen data hefyd mewn perthynas â

gweithwyr gwrywaidd a benywaidd ynghylch swyddi, cyflogau a graddau, math o gontract, a phatrwm gweithio. Mae'n bwysig nodi na all y Cyngor ei gwneud yn ofynnol i weithiwr ddatgelu gwybodaeth mewn perthynas â'r nodweddion gwarchoddedig ac y dylai ddarparu categori 'anhysbys' neu 'mae'n well peidio â dweud'.

Cyflog cyfartal

Ar ôl cwblhau'r prosiect Cyflog Cyfartal (sy'n gysylltiedig â Chynllun Cydraddoldeb Strategol 2012 i 2016), datblygwyd strwythur newydd ar gyfer cyflogau a graddau a oedd yn defnyddio meini prawf cyson ar gyfer gwerthuso swyddi a modelu cyflogau a ddefnyddir ledled y wlad. Roedd hyn hefyd yn alinio cyflogau rolau sy'n cael eu dominyddu gan ddynion a menywod er mwyn cael gwared ar unrhyw wahaniaethu hanesyddol a allai fod wedi bodoli. Mae rolau newydd a diwygiedig yn parhau i fod yn destun gwerthusiad swydd er mwyn cynnal tegwch.

Cyflog y rhywiau

Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn fesur cydraddoldeb sy'n dangos y gwahaniaeth mewn enillion cyfartalog rhwng menywod a dynion. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn y DU yn ychydig dros 18% (2018). Yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent, rydym yn hyderus bod dynion a menywod yn cael eu talu'n gyfartal am wneud swyddi cyfatebol ar draws y busnes. Mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent yn dangos bod y gweithlu'n fenywod yn bennaf a bod menywod yn dal canran uchel o swyddi ar draws pob un o'r pedwar chwarterel cyflog. Mae'r bwlch cyflog ym Mlaenau Gwent yn sylweddol is na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae wedi gwella ymhellach, gan ostwng o fod yn 7.06% yn is na chyflog cymedrig dynion. Mae'r wybodaeth am y bwlch cyflog rhwng y rhywiau sy'n ofynnol o dan ofynion statudol Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Gwybodaeth Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau)

2017 yn cael ei chyflwyno a'i chyhoeddi trwy Ddatganiad Polisi Tâl y Cyngor 2019/20.

Caffael

Mae'r ddyletswydd benodol hon yn berthnasol pan fydd cynghorau yn caffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau gan sefydliadau eraill ar sail 'cytundeb perthnasol'. Mae cytundebau perthnasol yn cynnwys dyfarnu 'contract cyhoeddus' neu gwblhau 'cytundeb fframwaith' a reoleiddir gan Gyfarwyddeb y Sector Cyhoeddus (Cyfarwyddeb 2004/18/EC) / Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2006.

Mae'r ddyletswydd benodol yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau ystyried a fyddai'n briodol cynnwys amodau penodol sy'n ymwneud â'r ddyletswydd gyffredinol, yn y meini prawf dyfarnu a/neu mewn amodau sy'n ymwneud â chyflawni contract o'r math hwn.

Adrodd a chyhoeddi

Bob blwyddyn mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi Adroddiad Blynyddol yn amlinellu sut y cyflawnodd dri nod y ddyletswydd gyffredinol. Bydd yr adroddiad yn amlinellu'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud wrth gyflawni ei amcanion cydraddoldeb a'i Gynllun Gweithredu lefel uchel.

Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys datganiad ar effeithiolrwydd trefniadau'r awdurdod ar gyfer nodi a chasglu gwybodaeth sy'n ymwneud â'i weithlu a'r rhesymau pam na chasglwyd unrhyw wybodaeth a nodwyd.

Trosolwg o Flaenau Gwent

Mae Blaenau Gwent yn Ne-ddwyrain Cymru. Mae tua 20 milltir o Gasnewydd, a 30 milltir o Gaerdydd, ac yn union i'r de o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae'r ardal yn un gymharol fach yn ddaearyddol, gan fod ar ei hiraf yn 15 milltir o hyd ac 8 milltir o led, ac ef yw'r awdurdod lleol lleiaf yng Nghymru o ran arwynebedd tir, ar tua 10,900 hectar. Caiff yr ardal ei diffinio'n ffisegol gan fryniau uchel yn rhannu tri phrif gwm. Mae'r cymoedd hyn yn gartref i drefi a phentrefi sy'n ymddangos eu bod yn uno ynghyd. Fodd bynnag, mae pob cymuned yn falch wrth gynnal ei chymeriad a'i thraddodiadau ei hun. Y pum prif dref ac anheddiad yw Abertyleri, Bryn-mawr, Glynebwy, Nant-y-glo a Blaenau, a Thredegar.

Darparu darlun ystadegol cywir

Cydnabyddir yn eang fod heriau sylweddol pan ddaw i gasglu gwybodaeth gywir yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, yn arbennig ar gyfer rhai nodweddion gwarchoddedig, e.e. cyfeiriadedd rhywiol ac ailbennu rhywedd. Bydd gweddill yr adran hon yn cyflwyno rhai ystadegau perthnasol i helpu i sefydlu darlun cyffredinol o gydraddoldeb ac amrywiaeth ym Mlaenau Gwent. Caiff yr wybodaeth ei chyflwyno mewn modd sy'n cysylltu'n agos â'r **nodweddion gwarchoddedig** a ddiffinnir gan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Pobl

Amcangyfrifir bod tua 69,700 o bobl yn byw ym Mlaenau Gwent yn 2019, gan ei wneud yn un o'r awdurdodau lleol lleiaf yng Nghymru yn nhermau nifer poblogaeth. Hyd yn oed wedyn, oherwydd ei faint daearyddol cymharol fach, ef sydd â'r dwysedd poblogaeth chweched uchaf yn dilyn Caerdydd, Casnewydd, Torfaen, Caerffili ac Abertawe.

Mae amcangyfrion poblogaeth y Swyddfa Ystadegau Gwladol (seiliedig yng nghanol 2014) yn awgrymu y disgwylir i boblogaeth Blaenau Gwent ostwng

1.4% dros ddeng mlynedd (gostyngiad o 1,000 o drigolion) a 4.5% dros 20 mlynedd o gymharu â 2019, er bod rhagestyniadau yn dod yn llai dibynadwy dros gyfnodau hirach. Mae'r gostyngiad a ragwelir ym mhoblogaeth Blaenau Gwent yn gwrthgyferbynnu â'r darlun o gynnydd a ragwelir yn gyffredinol ar draws rhanbarthau eraill Cymru. Rhagwelir y bydd poblogaeth Cymru gyfan yn cynyddu 2.6% dros y deng mlynedd nesaf a 4.0% dros 20 mlynedd¹

Er bod disgwyliad oes yn cynyddu ym Mlaenau Gwent, mae gostyngiad mewn cyfraddau genedigaeth a chyfraddau marwolaeth uwch yn cyfrannu at y tueddiad ar i waered a ragwelir dros yr 20 mlynedd nesaf.

Rhyw²

Yn yr un modd â Chymru gyfan a gweddill y Deyrnas Unedig, dengys amcangyfrifon canol blwyddyn 2018 fod ychydig yn fwy o fenywod (51%) na gwrywod (49%) ym Mlaenau Gwent. Nid oes ychwaith fawr o wahaniaeth i gyfartaledd Cymru wrth ystyried y rhaniad rhwng y rhywiau ar draws pob un o'r bandiau oedran allweddol, sy'n amrywio ddim mwy na 2%.

¹ StatsCymru: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Projections/Local-Authority/2014-based/populationprojectioncomponentsofchange-by-localauthority-year>

² StatsCymru: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Distributions/agedistributionofpopulation-by-gender-year>

Oedran³

Dengys Tabl 1 boblogaeth Blaenau Gwent a Chymru wedi'i gwahanu yn fandiau oedran allweddol. Nid yw dadansoddiad o'r boblogaeth yn ôl band oedran yn dangos unrhyw wahaniaethau sylweddol i gyfartaledd Cymru.

Tabl 1: Poblogaeth Blaenau Gwent a Chymru canol blwyddyn 2018 – amcangyfrifon yn ôl bandiau allweddol

	Blaenau Gwent			Cymru		
	Gwryw	Benyw	Cyfan	Gwryw	Benyw	Cyfan
0 i 15	6,245	5,944	12,189	288,218	274,491	562,709
16 i 24	3,454	3,503	6,957	181,268	165,369	346,637
25 i 44	8,585	8,764	17,349	373,211	374,359	747,570
45 i 54	9,540	9,746	19,286	404,347	425,375	829,722
55 i 64	3,889	3,921	7,810	174,528	185,007	359,535
65 i 84	2,084	2,508	4,592	95,735	114,305	210,040
85 a throsodd	570	960	1,530	30,002	52,416	82,418
Cyfan	34,367	35,346	69,713	1,547,309	1,591,322	3,138,631

Anabledd⁴

Dangosodd Cyfrifiad 2011 i 27% o'r holl bobl sy'n byw ym Mlaenau Gwent ddweud fod ganddynt broblem iechyd neu salwch hirdymor oedd yn cyfyngu ar eu gweithgareddau beunyddiol. Roedd hyn yn uwch na chyfartaledd Cymru (23%) a'r lefel ail uchaf (ar ôl Castell-nedd Port Talbot gyda 28%) yng Nghymru.

³ StatsCymru: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Distributions/agedistributionofpopulation-by-gender-localauthority>

StatsCymru: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Estimates/Local-Authority/populationestimates-by-localauthority-age>

⁴ StatsCymru: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Census/2011/LimitingLongTermIllnessDisability-by-LocalAuthority>

Dangosodd Arolwg Poblogaeth Blynyddol 2011 yr amcangyfrifwyd o boblogaeth oedran gwaith Blaenau Gwent (gwrywod 16-64 oed a benywod 16-59 oed) fod gan tua 3,100 o bobl anabledd corfforol, 2,600 broblemau anadlol neu'n ymwneud â'r galon, a 1,400 salwch hirsefydlog neu gynyddol. Yn ogystal â hyn, roedd gan 4,000 o bobl broblemau iechyd 'eraill' fel nam ar y synhwyrau ac anawsterau dysgu.

Dangosodd ystadegau mwy diweddar o'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol ar gyfer y flwyddyn yn diweddu 30 Mehefin 2016 fod Blaenau Gwent yn parhau i fod â lefelau uwch na'r cyfartalog o anabledd, gyda chyfanswm o 25.8% o bobl oedran gwaith yn cael eu diffinio fel anabl o gymharu â 24.4% ar gyfer Cymru yn ei chyfanrwydd.

Mae'r ffigurau diweddaraf gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent sy'n gysylltiedig ag anabledd yn dangos y canlynol:⁵

- Ychydig dros 100 o blant y gwyddys bod ganddynt anabledd;
- Ychydig dros 100 o bobl y gwyddys bod ganddynt nam ar y synhwyrau (mae hyn yn cynnwys nam ar y golwg) (2018/19);
- Ychydig dros 350 o bobl y gwyddys bod ganddynt anabledd dysgu;
- Bron 5,000 o bobl wedi cofrestru ar gyfer Bathodyn Glas.

Mae'r lefelau cymharol uchel hyn o anabledd ym Mlaenau Gwent yn golygu bod cyfran uchel o bobl yn hawlio budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag anabledd, fel y dangosir islaw:

- Roedd 12.0% o bobl oedran gwaith ym Mlaenau Gwent yn hawlio Lwfans Cyflogaeth a Chymorth neu Fudd-dal Analluogrwydd, o gymharu ag 8.4% ledled Cymru (Tachwedd 2016).

⁵ StatsCymru: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Disability-Registers/physicallysensorydisabledpersons-by-localauthority-disability-agerange>

<https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Health-and-Social-Care/Social-Services/Disability-Registers/personswithlearningdisabilities-by-localauthority-service-agerange>

- Roedd 8.0% o boblogaeth Blaenau Gwent yn hawlio Lwfans Byw i'r Anabl, o gymharu â 6.1% ledled Cymru (Tachwedd 2018).

Hil⁶

Dangosodd ystadegau Cyfrifiad 2011 fod poblogaeth Blaenau Gwent o bobl dduon a lleiafrifoedd ethnig ychydig dan 1,900. Mae hyn yn gyfwerth â 2.6% o'r holl boblogaeth ac yn gryn dipyn yn is na chyfartaledd Cymru o 6.7%. Yn 2001, roedd y ganran o bobl o grwpiau lleiafrifoedd ym Mlaenau Gwent yn 1.8%, tua 1,300 o bobl, felly bu cynnydd amlwg rhwng 2001 a 2011. Hyd yn oed wedyn, mae Blaenau Gwent yn dal i fod ag un o'r lefelau isaf o bobl o grwpiau lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru, ac yn un o'r awdurdodau lleol lleiaf amrywiol o ran ethnigrwydd yng Nghymru a Lloegr – gyda dim ond pedair ardal arall sydd â chanran lai o bobl o leiafrifoedd ethnig.

Mae ystadegau hirdymor ar fudiad rhyngwladol yn rhoi amcangyfrifon o nifer y preswylwyr arferol sy'n symud i mewn i'r Deyrnas Unedig ac allan ohoni. Mae'n debyg mai'r set hon o ystadegau yw'r un a ddefnyddir amlaf wrth drafod mudo rhyngwladol. Dim ond y rhai sy'n bwriadu newid eu preswylfa arferol am 12 mis neu fwy y mae'n eu cynnwys.

Mae ffigurau'r Swyddfa Ystadegau Gwladol yn dangos cynnydd cymharol fach o ran mudo rhyngwladol net fesul 1,000 o drigolion Blaenau Gwent er 2010. Gwelwyd cynnydd bychan, gyda mewnlif o 0.8 fesul 1,000 o drigolion yn 2010 yn codi i 1.8 am yr un cyfnod yn 2015. Fodd bynnag, mae'r duedd hon ar i fyny wedi gwrthdroi, i lawr i fewnlif o 1.5 fesul 1,000 o drigolion yn 2018. Mae hyn yn cyfateb i fewnlif rhyngwladol cyfartalog bob blwyddyn o 1.4 fesul 1,000 o drigolion yn lleol, o'i gymharu â 5.0 fesul 1,000 o drigolion ledled Cymru. Mae'r mewnlif hwn wedi'i wrthbwysu gan all-lif rhyngwladol cyfartalog lleol bob blwyddyn o 1.0 fesul 1,000 o drigolion.

⁶ StatsCymru: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Population-and-Migration/Population/Components-of-Change/components-of-population-change-by-timeperiod-component>

Dros gyfnod hirach o ddeng mlynedd, mae Blaenau Gwent wedi gweld mewnlif rhyngwladol o 1,013 o bobl ac all-lif o 702 o bobl. Mae hyn yn fewnlif rhyngwladol net o 311, neu 31 o bobl bob blwyddyn ar gyfartaledd.

Dros yr un cyfnod o ddeng mlynedd, roedd 1,302 o gofrestriadau rhif yswiriant gwladol ym Mlaenau Gwent gan oedolion o wledydd tramor rhwng 16 a 64 oed.

Mae hyn ym ymwneud ag oedolion o wledydd tramor sy'n dod i'r DU ac yn cael rhif yswiriant gwladol wedi'i ddyrannu iddynt. Yn gyffredinol, mae angen y rhif hwn gan unrhyw wladolyn tramor sydd am weithio neu sy'n ceisio hawlio budd-daliadau / credydau treth yn y DU, gan gynnwys rhai hunangyflogedig neu fyfyrwyr sy'n gweithio'n rhan amser.

Mae ffigurau'n seiliedig ar y dyddiad cofrestru a gofnodwyd ar system Cofnodi Yswiriant Gwladol a Thalu wrth Ennill CThEM, h.y. ar ôl i'r broses ymgeisio am rif yswiriant gwladol gael ei chwblhau. Gall hyn fod nifer o wythnosau neu fisoedd (neu flynyddoedd mewn rhai achosion) ar ôl cyrraedd y DU.

Mae pob oedolyn o wlad dramor y dyrannwyd rhif yswiriant gwladol iddo yn cael ei gynnwys, waeth beth fo hyd ei arhosiad yn y DU.

Yn ôl y Cyfrif Carafannau Sipsiwn a Theithwyr a gynhaliwyd gan awdurdodau lleol yng Nghymru, roedd tri safle sipsiwn a theithwyr awdurdodedig ym Mlaenau Gwent ym mis Gorffennaf 2019 ac 16 o leiniau preswyl oedd yn cael eu defnyddio.

Fodd bynnag, mae ffigurau Cyfrifiad 2011 yn awgrymu bod defnydd wedi'i ledaenu'n ehangach ar draws y fwrdeistref mewn gwahanol fathau o lety gan fod 72 o Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yn byw yn y fwrdeisdref mewn 27 ardal gynnyrch wahanol o fewn 11 ward.

Crefydd a chred

Dengys Cyfrifiad 2011 i hanner y bobl ym Mlaenau Gwent ddweud eu bod yn Gristnogion (50%), sy'n is na chyfartaledd Cymru o 59%. Mae hyn yn dangos gostyngiad amlwg ers Cyfrifiad 2001, pan oedd y canrannau cyfatebol yn 64.0% a 71.0%.

Dywedodd ychydig dros 1% o bobl ym Mlaenau Gwent eu bod o grefydd arall megis Bwdhaeth, Hindwâeth, Islam, Iddewiaeth a Sikhiaeth.

Dywedodd ychydig dros 41% o boblogaeth Blaenau Gwent nad oedd ganddynt grefydd, yn uwch na chyfartaledd Cymru o 37%. Mae hyn yn gynydd amlwg o gymharu â 2001, gyda lefelau cyfatebol o 25% ac 19%. Ni wnaeth 8% arall o bobl ym Mlaenau Gwent nodi eu crefydd. Mae manylion yn Nhabl 2.

Tabl 2: Crefydd ym Mlaenau Gwent, Cyfrifiad 2011

	Pobl	Canran
Cristnogol	34,805	49.9%
Bwdhaidd	112	0.2%
Hindwâidd	72	0.1%
Iddewig	8	0.0% (<i>yn llai na 0.049%</i>)
Mwslimaidd	179	0.3%
Sikhaidd	39	0.1%
Unrhyw grefydd arall	253	0.4%
Dim crefydd	28,676	41.1%
Heb nodi crefydd	5,670	8.1%
Pawb	69,814	

Dangosodd dadansoddiad pellach fod pobl o dan 24 oed (56%) a phobl rhwng 25 a 49 oed (51%) yn fwy tebygol o nodi bod 'dim crefydd' ganddynt na phobl 50 oed ac yn hŷn (20%).

Cyfeiriadedd rhywiol⁷

Nid oes ystadegau manwl gywir ar gyfeiriadedd rhywiol ar gael ar gyfer Blaenau Gwent. Fodd bynnag, mae'r Arolwg Poblogaeth Blynyddol yn cynnwys data ar hunaniaeth rywiol yng Nghymru ar sail blwyddyn galendr. Yn 2017, mae'r arolwg hwn yn dangos bod 95.0% o bobl yng Nghymru yn nodi eu bod yn heterorywiol, 1.3% yn hoyw/lesbiaidd, 0.7% yn ddeurywiol, a 0.5% yn 'arall', tra nad atebodd 2.5% o bobl y cwestiwn hwn.

Priodas a phartneriaeth sifil

Bu 34 partneriaeth sifil yng Nghymru yn 2018. Yn 2006 y bu'r nifer uchaf yng Nghymru – y flwyddyn yn dilyn newid y ddeddf, pan fu 560 partneriaeth sifil.

Bu 173 priodas ym Mlaenau Gwent yn 2016. Ni fu unrhyw bartneriaethau sifil ym Mlaenau Gwent rhwng 2013 a 2018.

Ailbennu rhywedd⁸

Fel yn 2012, nid oes ystadegau ar gael ar ailbennu rhywedd ar gyfer Blaenau Gwent. Fodd bynnag, mae'r Gymdeithas Ymchwil ac Addysg Hunaniaeth o ran Rhywedd (GIRES) yn awgrymu amcangyfrifon ar gyfer dysfforia rhywedd, sef y term meddygol am y cyflwr lle mae rhywun sydd wedi cael ei neilltuo i un rhywedd (fel arfer adeg ei eni ar sail ei ryw) yn uniaethu â rhywedd arall neu nad yw'n cydymffurfio â'r rôl rywedd y mae ei gymdeithas berthnasol yn ei rhagnodi iddo.

Mae GIRES yn amlinellu y byddai 8 o bobl fesul 100,000 yn amcangyfrif isel ar gyfer y Deyrnas Unedig, ac y byddai amcangyfrif uchel yn 21 o bobl fesul 100,000. O ystyried hyn, byddai disgwyl i rhwng **5 ac 14 o bobl** ym Mlaenau Gwent fod â dysfforia rhywedd.

⁷ StatsCymru: <https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Equality-and-Diversity/Sexual-Orientation/sexualidentity-by-year-identitystatus>

⁸ <https://www.gires.org.uk/>

Ystadegau perthnasol eraill


Yn ogystal â'r ystadegau sy'n benodol i gydraddoldeb uchod, mae gan Flaenau Gwent hefyd o'i gymharu â lefel Cymru gyfan:

- Lefelau uwch o ddiweithdra ac anweithgarwch economaidd;
- Canran uwch o aelwydydd di-waith;
- Lefelau is o fusnesau newydd yn cychwyn;
- Lefelau uwch o bobl yn dibynnu ar fudd-daliadau;
- Lefelau is o gymwysterau;
- Disgwyliad oes is na'r cyfartaledd; a
- Lefelau uwch o iechyd gwael (pobl â salwch hirdymor sy'n economaidd anweithgar).

Bodloni Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Rydym yn ymwybodol o'r cysylltiadau cryf rhwng cryfhau cydraddoldeb a gwella llesiant yn ein hardal. Rydym yn cydnabod y bydd cyflwyno ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn allweddol wrth helpu i gyfrannu tuag at gyflawni cynllun llesiant lleol Blaenau Gwent, '[Y Blaenau Gwent a Garem, 2018-23](#)', ac wrth fodloni ein dyletswyddau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Er enghraifft, bydd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn allweddol wrth gyfrannu tuag at gyflawni'r nodau llesiant cenedlaethol – yn benodol '*Cymru sy'n fwy cyfartal*', '*Cymru o gymunedau cydlynus*', '*Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu*' a '*Cymru lewyrchus*'.



Ar ben hynny a thrwy gydol ein darpariaeth, byddwn yn sicrhau ein bod yn defnyddio'r pum ffordd o weithio, yn ogystal â rhoi ystyriaeth i anghenion yr ardal ar hyn o bryd ac yn y dyfodol:



1. **Hirdymor** – Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.
2. **Atal** – Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.
3. **Integreiddio** – Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.
4. **Cydweithio** – Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.
5. **Cynnwys** – Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

Bodloni'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus newydd ar waith ym mis Ebrill 2020 o'r enw'r 'ddyletswydd economaidd-gymdeithasol'. Mae'r ddyletswydd yn ceisio sicrhau bod cyrff cyhoeddus, fel awdurdodau lleol, yn meddwl am sut i leihau tlodi ac anghydraddoldeb pan fyddant yn gwneud penderfyniadau mawr.

Diffinnir tlodi fel bod â dim digon o arian i fyw'n dda, neu gael anawsterau wrth geisio cael mynediad at wasanaethau fel gofal iechyd ac addysg. Mae ymchwil yn awgrymu bod pobl â nodweddion gwarchodedig yn debygol o wynebu lefelau uwch o anghydraddoldeb oherwydd eu bod yn byw mewn tlodi ac felly mae'r ddyletswydd yn ceisio sicrhau bod y bobl hynny'n cael eu trin yn gyfartal ac yn deg.

Yn ystod mis Tachwedd 2019 a mis Ionawr 2020, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar y ddyletswydd cydraddoldeb arfaethedig i'r sector cyhoeddus – y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol. Fel Cyngor, gwnaethom achub ar y cyfle i rannu ein barn gan y byddwn yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd.

Yn gyffredinol, rydym yn cefnogi nodau'r ddyletswydd yn llawn ac wedi cynnwys hyn fel rhan o'n cynllun. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth yn yr adran '[Amcan Cydraddoldeb](#)' ar dudalen 20.

Yn ystod dwy flynedd gyntaf y cynllun hwn, byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, sy'n cynnig cefnogaeth dros dro i bob corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd newydd hyd nes lansio canllawiau statudol.

Datblyu ein hamcanion a chynllun cydraddoldeb

Er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn barod i gyflawni ei ddyletswyddau cyffredinol a hefyd ei ddyletswydd benodol yn ymwneud ag amcanion cydraddoldeb a chynllun cydraddoldeb strategol, crëwyd cynllun prosiect wedi'i alinio ag amser. Amlinellodd cynllun y prosiect yr holl elfennau allweddol sy'n angenrheidiol ar gyfer cefnogi'r gwaith o ddatblygu ein hamcanion a chynllun cydraddoldeb, o'r cychwyn cyntaf hyd at eu cyhoeddi.

Mehfin 2019 – Mawrth 2020

- Casglu gwybodaeth a chynnal gwaith ymchwil;
- Cynnwys rhanddeiliad allweddol ac ymgysylltu â nhw, gan gynnwys holl Aelodau Etholedig y Cyngor, i nodi materion a blaenoriaethau cydraddoldeb allweddol;
- Llunio ein dull a'n hamcanion cydraddoldeb ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 er mwyn ymgynghori ffurfiol arnynt;
- Ymgynghoriad ffurfiol ar ddull ac amcanion cydraddoldeb ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 ar ffurf ddrafft;
- Adolygu adborth a dderbyniwyd;
- Drafft terfynol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 a'r amcanion cydraddoldeb wedi'u datblygu;
- Ymgysylltiad proffesiynol a gwleidyddol – llwybr i'w fabwysiadu gan y Cyngor (gan gynnwys pwyllgorau Craffu a Gweithredol);
- Cyhoeddi a hyrwyddo;
- Gweithredu;
- Monitro ac adolygu.

Casglu gwybodaeth a chynnal gwaith ymchwil

Yn sail i'r gwaith o ddatblygu ein cynllun yw gwybodaeth a gwaith ymchwil sydd wedi'i gynnal, fel ymchwil bwrdd gwaith i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a phob un o'r nodweddion gwarchoddedig, yn ogystal ag adolygu cyngor ac arweiniad gan sefydliadau rhanbarthol a chenedlaethol perthnasol fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) a'r Comisiwn Cydraddoldeb a a Hawliau Dynol.


Roedd hyn yn cynnwys:

- Casglu ac adolygu canllawiau ar Ddeddf Cydraddoldeb 2010;
- Deall pob un o'r nodweddion gwarchoddedig a chasglu gwybodaeth ystadegol leol – os yw ar gael;
- Gwybodaeth, data ac ystadegau a ystyriwyd ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol;
- Ymchwil genedlaethol a wnaed gan y Comisiwn Cydraddoldeb a a Hawliau Dynol: *A yw Cymru'n Decach?* (2015) ac *A yw Cymru'n Decach?* (2018);
- Ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru ar ei hamcanion cydraddoldeb arfaethedig ar gyfer 2020 i 2024, yn benodol 'Deddf Cydraddoldeb 2010: Cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol' (a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2019);
- Ystyried cynlluniau lleol fel Cynllun Corfforaethol Cyngor Blaenau Gwent 2018-22 a chynllun llesiant lleol Blaenau Gwent 'Y Blaenau Gwent a Garem, 2018-23, yn ogystal â'n Cynllun Cydraddoldeb Strategol blaenorol ar gyfer y cyfnod 2016-20;
- Mynd i'r Gynhadledd Genedlaethol ar Gydraddoldeb.

Cefnogaeth gan ein timau arweinyddiaeth broffesiynol a gwleidyddol

- Gweithgor aelodau etholedig a sefydlwyd gan y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol fel rhan o'i flaenraglen waith ar gyfer 2019/20. Mae Hyrwyddwr Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Cyngor yn rhan o'r grŵp, a gyfarfu ym mis Medi a mis Tachwedd i helpu i lunio'r dull a'r amcanion;
- Cynhaliwyd sesiwn arbennig ym mis Ionawr 2020 ar gyfer Aelodau ar ein dull ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 a'n hamcanion cydraddoldeb drafft, dan arweiniad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol;
- Cynhaliwyd sesiynau gyda phob un o'r timau Rheoli Adrannol a hefyd y Tîm Arweinyddiaeth Gorfforaethol ehangach i gefnogi datblygiad 'fframwaith effeithiol ar gyfer cyflawni', i hysbysu rheolwyr strategol o ddyletswyddau cyffredinol a phenodol cyrff cyhoeddus o ganlyniad i Ddeddf Cydraddoldeb 2010, ac i ystyried y dull ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 ar ei ffurf ddrafft a'r amcanion cydraddoldeb.

Ymgysylltu â phobl a'u cynnwys



Er mwyn cefnogi datblygiad ein cynllun ac yn unol â'n dyletswydd i 'gynnwys' pobl sydd â diddordeb yn swyddogaethau'r Cyngor, gwnaethom gyflwyno rhaglen ymgysylltu, dros ddau gam, a roddodd gyfle i bobl leol, cymunedau a staff siarad â ni am gydraddoldeb a'n hysbysu ynglŷn â'r prif faterion cydraddoldeb ym Mlaenau Gwent yn eu barn nhw a pha awgrymiadau oedd ganddynt ar gyfer mynd i'r afael â hwy.

Ein camau ymgysylltu a chynnwys:

- **Cam 1 – Gadewch i ni siarad am degwch a chydraddoldebau!**
- **Cam 2 – Dywedwch wrthym beth yw eich barn am gydraddoldebau!**

Arweiniwyd ein gwaith ymgysylltu gan yr Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd a'r Egwyddorion Cenedlaethol ar gyfer Cyfranogiad Plant a Phobl Ifanc ac roedd hefyd ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Ymhellach at hyn, gwnaethom hefyd sicrhau bod ein holl ddeunyddiau

ymgysylltu ar gael mewn fformatau hawdd eu deall i sicrhau bod ein hymgysylltiad mor hygyrch â phosibl.

Cynigiwyd opsiynau ar gyfer gofyn am y deunyddiau mewn fformatu amgen hefyd, fel Braille.

Gwnaethom annog ymatebwyr i gymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol ffyrdd, megis trwy ein harolwg ar-lein, ysgrifennu atom, ymweld â ni, sgwrsio â ni dros y ffôn, neu hyd yn oed trwy gyflwyno lluniadau, cerddi a storïau. Gwnaethom hyn gan gydnabod y gall pobl yn aml deimlo'n fwy cyfforddus yn darparu eu safbwyntiau mewn fformatau amgen.

Yn ystod y ddau gam, gwnaethom hyrwyddo'n helaeth y cyfleoedd i ymgysylltu â ni trwy wefan a phlatfformau cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, yn ogystal â dosbarthu'r wybodaeth hon trwy rwydweithiau ein partneriaethau a'i hanfon at grwpiau, clybiau a sefydliadau perthnasol yn yr ardal.

Ceir crynodeb isod o bob cam o'r rhaglen ymgysylltu:

Cam 1: Awst i Fedi 2019


Cynhaliwyd y cam hwn cyn i ni ddechrau drafftio'r cynllun. Gofynasom:

- 1. Beth yw'r peth pwysicaf i chi am gydraddoldebau?**
- 2. Beth yw'r blaenoriaethau cydraddoldebau allweddol y mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio arnynt?**

Ar y cam hwn, yn ychwanegol at y dulliau a amlinellwyd uchod, gwnaethom hefyd gynnal sesiynau ymgysylltu pwrpasol gyda'n Huwch-Gyngor Plant a Fforwm Ieuenctid, a hefyd gyda grŵp o oedolion ag anableddau corfforol a dysgu yng Nghanolfan Ddydd Vision House, Glynebwy.



Enghraifft o adborth o'n sesiwn yn Vision House



Enghraifft o adborth ar ffurf llun gan yr Uwch-Gyngor Plant

Dyma rai o'r themâu allweddol a ddaeth i'r amlwg o'n cam ymgysylltu cyntaf:

- Parchu a dathlu gwahaniaeth ac amrywiaeth;
- Hygyrchedd yn y gymuned;

- Cyfleoedd cyflogaeth i bobl ag anableddau.

Cymerodd cyfanswm o 120 o gyfranogwyr ran yn ystod Cam 1.

Cam 2: Rhagfyr 2019 i Ionawr 2020

Defnyddiwyd yr adborth o Gam 1, ynghyd ag ystadegau allweddol a data demograffig, i'n helpu i ddrafftio ein dull a'n hamcanion cydraddoldeb ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24.

Yn ystod Cam 2 ein rhaglen ymgysylltu, gwnaethom gyflwyno ein dull gweithredu ac amcanion cydraddoldeb drafft ar gyfer Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 a gofyn:

- 1. I ba lefel ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n dull arfaethedig ar gyfer cydraddoldebau?*
- 2. I ba lefel ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'n chwe amcan cydraddoldeb?*
- 3. A oes gennych unrhyw sylwadau ar ein cynllun neu ein hamcanion cydraddoldeb?*


Cyrhaeddiad ein hymgysylltiad yn ystod Cam 2

Yn ystod Cam 2, gwnaethom ddefnyddio ystod o ddulliau a gweithgareddau i gefnogi gwaith ymgysylltu. Roedd hyn yn cynnwys:

- Gweithdai a gynhaliwyd yng Nghanolfan Ddydd Vision House, canolfan ar gyfer pobl ag anableddau, megis anableddau dysgu ac anableddau corfforol;
- Cynhaliwyd sesiwn arbennig ym mis Ionawr 2020 ar gyfer Aelodau ar ein dull a'n hamcanion cydraddoldeb drafft ar gyfer Cynllun

Cydraddoldeb Strategol 2020-24, dan arweiniad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol;

- Cynhaliwyd arolygon o siopwyr ar draws ein canol trefi allweddol gan ddefnyddio ein dyfeisiau iPad â holiaduron arnynt wedi'u paratoi ymlaen llaw;
- Cynhaliwyd digwyddiad cydraddoldeb arbennig o'r enw 'Lleisiau ein Cymoedd' a ddaeth â gwahanol grwpiau o bobl leol a chymunedau ynghyd o bob rhan o Flaenau Gwent, gan gynnwys sefydliadau allweddol sydd â diddordeb mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth. Gyda 50 yn bresennol, lanswyd y digwyddiad yn llwyddiannus gan y Cynghorydd Moore, ein Hyrwyddwr Cydraddoldeb a Chadeirydd y Cyngor, ac roedd yn cynnwys ystod o sgysiau, megis Pobl yn Gyntaf Blaenau Gwent, Ysgol Gynradd Deighton a Grŵp Ffydd Baha'i. Roedd y digwyddiad yn arddangos y gwaith cadarnhaol a oedd eisoes yn digwydd yn ein hardal i gefnogi'r agenda gydraddoldeb ac roedd yn caniatáu i fynychwyr gymryd rhan mewn gweithdai rhyngweithiol lle roeddent yn gallu rhannu eu barn a thrafod materion cydraddoldeb. Arweiniodd hyn at ddarparu ffynhonnell gyfoethog o wybodaeth inni a ddefnyddiwyd i lywio datblygiad y cynllun drafft terfynol;
- Gwnaethom hefyd rannu ein harolwg yn helaeth â fforymau a rhwydweithiau allweddol, fel ein Fforwm Ieuenctid, ein Fforwm Pobl Hŷn ac Is-grŵp Ymgysylltu ein Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, a gwnaethom hefyd hyrwyddo'r cyfle gyda sefydliadau allweddol sy'n cynrychioli pobl a chymunedau a gwmpesir gan un neu fwy o'r nodweddion gwarchodedig.



Enghraifft o adborth o ddigwyddiad 'Lleisiau ein Cymoedd'

Derbyniwyd cyfanswm o 96 o ymatebion i'r holiadur ar-lein:

- Roedd 90% o'r ymatebwyr yn cytuno (65%) neu'n cytuno'n gryf (25%) â'n dull arfaethedig. Dim ond 4% oedd yn anghytuno (2%) neu'n anghytuno'n gryf (2%), ac roedd y 7% oedd yn weddill yn nodi nad oeddent yn gwybod.
- Roedd 86% o'r ymatebwyr yn cytuno (71%) neu'n cytuno'n gryf (15%) â'n chwe amcan cydraddoldeb. Dim ond 2% oedd yn anghytuno. Nid oedd unrhyw ymatebwyr yn anghytuno'n gryf. Roedd 12% yn ansicr.

Drafftio'r Cynllun Cydraddoldeb

Defnyddiwyd adborth o Gam 2 y rhaglen ymgysylltu i lywio'r fersiwn ddrafft derfynol o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 a'r amcanion cydraddoldeb. Yn gyffredinol, rhoddodd pobl adborth cadarnhaol iawn am ein dull a'n hamcanion ac ar y cyfan ni wnaed unrhyw newidiadau sylweddol i'r fersiwn ddrafft o Gynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24 na'r amcanion cydraddoldeb drafft. Fodd bynnag, lle cawsom adborth ac awgrymiadau sylweddol i newid geiriad neu iaith ein hamcanion cydraddoldeb, gwnaed y diwygiadau priodol. Er enghraifft, newidiwyd ein hamcan drafft 'Byddwn yn ymdrechu i leihau tlodi' i 'Byddwn yn ymdrechu i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb a achosir gan dlodi ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchodedig' gan fod nifer sylweddol o bobl yn teimlo y byddai hyn yn fwy pendant ac y byddai mwy o siawns o'i gyflawni.

Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb – Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24

C.1. Amlinellwch bwrpas y polisi neu arfer: (dylid cynnwys y nodau, yr amcanion, y canlyniadau disgwylidiedig ac unrhyw themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg o'r polisi; efallai yr hoffech amlinellu unrhyw flaenoriaethau/amcanion allweddol a amlinellir yn y polisi neu arfer)

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i baratoi a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac amcanion cydraddoldeb bob pedair blynedd. Er mwyn cyflawni'r ddyletswydd hon, rhoddwyd cynllun prosiect ar waith fel rhan o'r Cynllun Busnes Llywodraethu a Phartneriaethau ar gyfer 2019/20.

Yn ogystal, cytunoedd y Pwyllgor Craffu Trosolwg Corfforaethol i sefydlu 'gweithgor aelodau' yn cynnwys pum aelod o'r pwyllgor (gan gynnwys y Cadeirydd a Hyrwyddwr Cydraddoldeb y Cyngor) fel rhan o'i Flaenraglen Waith ar gyfer 2019/20 i sicrhau cyfranogiad gweithredol wrth ddatblygu amcanion cydraddoldeb a chynllun ategol.

Mae chwe amcan cydraddoldeb arfaethedig. Mae'r amcanion arfaethedig yn ymateb i'r canlynol: amcanion arfaethedig Llywodraeth Cymru a'i hymgyngoriad cyfredol ar **ddechrau'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol; adroddiad 2018 'A yw Cymru'n Decach?'** y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol; a gwaith cynnwys lleol a wnaed ym Mlaenau Gwent rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2019 o'r enw 'Gadewch i ni siarad am degwch a chydaddoldebau'.

Y chwe Amcan Cydraddoldeb arfaethedig yw:

1. Byddwn yn sefydliad sy'n sicrhau bod tegwch a chydaddoldeb ym mhopeth a wnawn.
2. Byddwn yn gyflogwr cyfle cyfartal gyda gweithlu sy'n gwerthfawrogi cydraddoldeb ac amrywiaeth.
3. Byddwn yn cefnogi plant a phobl ifanc, yn enwedig y rheiny â nodweddion gwarchoddedig, i gyflawni eu huchelgeisiau dysgu.
4. Byddwn yn hyrwyddo ac yn cefnogi cymunedau diogel, cyfeillgar a chydlynol.
5. Byddwn yn sicrhau bod pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig a rhanddeiliaid allweddol sy'n cynrychioli eu buddiannau yn cael eu cynnwys mewn modd ystyrlon.
6. Byddwn yn ymdrechu i fynd i'r afael ag anghydaddoldeb a achosir gan dlodi ar gyfer pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig.

Cynhelir ymgynghoriad ffurfiol ar yr amcanion arfaethedig rhwng 16 Rhagfyr 2019 a 22 Ionawr 2020, cyn eu cyflwyno trwy brosesau gwleidyddol a democrataidd fel cynllun cyffredinol ym mis Chwefror a mis Mawrth 2020 (rhaid i'r Cyngor gytuno ar y strategaeth). Bydd cefnogaeth a digwyddiadau i helpu i ysgogi ymatebion i'r ymgynghoriad.

Mae dogfen gryno yn cael ei defnyddio i gefnogi'r ymgynghoriad ac mae'n darparu gwybodaeth am bob amcan arfaethedig (ar gael yn Gymraeg a Saesneg). Mae fersiwn hawdd ei deall ar gael hefyd.

<p>C.2. A yw'r polisi neu arfer yn newydd, yn bodoli, neu'n cael ei adolygu:</p>	<p>C.2.1. A yw'r polisi neu'r arfer hwn yn ddarostyngedig i unrhyw un o'r prosesau a ganlyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. <i>Arbedion effeithlonrwydd ariannol</i> 2. <i>Polisi</i> 3. <i>Adroddiad</i> 4. <i>Proses o wneud penderfyniadau</i> 5. <i>Cynllun busnes neu wasanaeth</i>
<p>Mae dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a osodwyd ar awdurdodau lleol wedi bod ar waith ers wyth mlynedd. Bob pedair blynedd mae'n ofynnol i ni adolygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol a'n hamcanion cydraddoldeb.</p> <p>Mae'r Cyngor yn cymryd camau i adnewyddu ei amcanion cydraddoldeb yn unol â dull newydd Llywodraeth Cymru a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o osod amcanion mwy penodol a phendant er mwyn hybu a hyrwyddo'r agenda gydraddoldeb.</p> <p>Dechreuodd yr asesiad hwn o gamau cyntaf datblygu'r polisi ac mae'n myfyrio ar ei ddatblygiad hyd at ei gyhoeddi. Mae'n ystyried materion cydraddoldeb allweddol a nodwyd yn ystod y broses.</p> <p>Ymhellach at hynny, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu rhoi dyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd ar awdurdodau lleol o fis Ebrill 2020, o dan Ddeddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010. Bydd y ddyletswydd newydd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol fyfyrion ar sut y byddant yn mynd ati ac yn cyflawni eu gofynion statudol o fewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2020-24.</p>	<p>Fel polisi, bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn destun prosesau proffesiynol a gwleidyddol ar gyfer adrodd a gwneud penderfyniadau trwy gydol ei gylch bywyd.</p> <p>Mae'r asesiad hwn yn cynnwys yr holl brosesau proffesiynol a gwleidyddol perthnasol a gynhaliwyd cyn ei gyhoeddi.</p>

C.3. Effeithiau cadarnhaol, niweidiol neu niwtral posibl ar nodweddion gwarchoddedig:

<u>Nodwedd warchoddedig</u>	<u>Cadarnhaol, negyddol, niwtral</u>	<u>Perthnasedd y polisi neu'r arfer</u>
<p><i>Oedran</i></p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb yn bwriadu sicrhau effeithiau cadarnhaol i'r rhai a gwmpesir gan y nodwedd warchoddedig oed. Er enghraifft, mae gwahanol grwpiau oedran, fel plant a phobl ifanc a phobl hŷn, wedi gallu cyfrannu at ddatblygiad y cynllun a byddant yn gallu bod yn rhan o unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol sy'n ymwneud â chyflawni'r cynllun hwn a'i amcanion.</p> <p>Ar ben hynny, mae'r cynllun hwn yn nodi camau a fwriedir sydd â'r potensial i gefnogi effeithiau cadarnhaol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesu beth yw ein sefyllfa bresennol fel 'cyflogwr cyfle cyfartal' trwy adolygu amrywiaeth ein gweithlu a nodi camau allweddol i gefnogi gwelliant; • Sicrhau bod aliniad rhwng Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor a'r Strategaeth Datblygu'r Gweithlu; • Mynd ati i hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltu sydd wedi'u hanelu at aelodau'r cyhoedd sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig; • Gweithio gyda phartneriaid ar brosiectau allweddol i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau; • Rhoi cyngor ac arweiniad i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ysgolion ac adolygu cynnydd yn flynyddol; • Cyngori a llywio staff ysgol ar faterion cydraddoldeb yn ôl yr angen.

<p><i>Anabledd</i></p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb yn bwriadu sicrhau effeithiau cadarnhaol i'r rhai a gwmpesir gan y nodwedd warchoddedig anabledd. Er enghraifft, mae pobl ag anableddau wedi gallu cyfrannu at ddatblygiad y cynllun a byddant yn gallu bod yn rhan o unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol sy'n ymwneud â chyflawni'r cynllun hwn a'i amcanion.</p> <p>Ar ben hynny, mae'r cynllun hwn yn nodi camau a fwriedir sydd â'r potensial i gefnogi effeithiau cadarnhaol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesu beth yw ein sefyllfa bresennol fel 'cyflogwr cyfle cyfartal' trwy adolygu amrywiaeth ein gweithlu a nodi camau allweddol i gefnogi gwelliant; • Sicrhau bod aliniad rhwng Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor a'r Strategaeth Datblygu'r Gweithlu; • Mynd ati i hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltu sydd wedi'u hanelu at aelodau'r cyhoedd sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig; • Gweithio gyda phartneriaid ar brosiectau allweddol i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau; • Rhoi cyngor ac arweiniad i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ysgolion ac adolygu cynnydd yn flynyddol; • Cyngori a llywio staff ysgol ar faterion cydraddoldeb yn ôl yr angen.
------------------------	-------------------	---

<p><i>Ailbennu rhywedd</i></p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb yn bwriadu sicrhau effeithiau cadarnhaol i'r rhai a gwmpesir gan y nodwedd warchoddedig ag ailbennu rhywedd. Bydd y Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb yn cael eu rhannu â phartneriaid a sefydliadau allweddol sy'n cynrychioli anghenion pobl a gwmpesir gan y nodwedd warchoddedig hon.</p> <p>Ar ben hynny, mae'r cynllun hwn yn nodi camau a fwriedir sydd â'r potensial i gefnogi effeithiau cadarnhaol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesu beth yw ein sefyllfa bresennol fel 'cyflogwr cyfle cyfartal' trwy adolygu amrywiaeth ein gweithlu a nodi camau allweddol i gefnogi gwelliant; • Sicrhau bod aliniad rhwng Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor a'r Strategaeth Datblygu'r Gweithlu; • Mynd ati i hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltu sydd wedi'u hanelu at aelodau'r cyhoedd sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig; • Gweithio gyda phartneriaid ar brosiectau allweddol i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau; • Rhoi cyngor ac arweiniad i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ysgolion ac adolygu cynnydd yn flynyddol; • Cyngori a llywio staff ysgol ar faterion cydraddoldeb yn ôl yr angen.
<p><i>Priodas a phartneriaeth sifil</i></p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb yn bwriadu sicrhau effeithiau cadarnhaol i'r rhai a gwmpesir gan y nodwedd warchoddedig phriodas a phartneriaeth sifil.</p>

<p><i>Beichiogrwydd a mamolaeth</i></p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb yn bwriadu sicrhau effeithiau cadarnhaol i'r rhai a gwmpesir gan y nodwedd warchoddedig beichiogrwydd a mamolaeth.</p> <p>Ar ben hynny, mae'r cynllun hwn yn nodi camau a fwriedir sydd â'r potensial i gefnogi effeithiau cadarnhaol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sicrhau bod aliniad rhwng Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor a'r Strategaeth Datblygu'r Gweithlu; • Mynd ati i hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltu sydd wedi'u hanelu at aelodau'r cyhoedd sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.
---	-------------------	---

<p><i>Hil</i></p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb yn bwriadu sicrhau effeithiau cadarnhaol i'r rhai a gwmpesir gan y nodwedd warchoddedig hil. Er enghraifft, rydym wedi mynd ati i ymgysylltu â phobl a gwmpesir gan y nodwedd warchoddedig hon i gyfrannu at ddatblygiad y cynllun a byddwn yn parhau i gefnogi unrhyw gyfranogiad yn y dyfodol mewn unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol sy'n ymwneud â chyflawni'r cynllun hwn a'i amcanion.</p> <p>Ar ben hynny, mae'r cynllun hwn yn nodi camau a fwriedir sydd â'r potensial i gefnogi effeithiau cadarnhaol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesu beth yw ein sefyllfa bresennol fel 'cyflogwr cyfle cyfartal' trwy adolygu amrywiaeth ein gweithlu a nodi camau allweddol i gefnogi gwelliant; • Sicrhau bod aliniad rhwng Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor a'r Strategaeth Datblygu'r Gweithlu; • Mynd ati i hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltu sydd wedi'u hanelu at aelodau'r cyhoedd sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig; • Gweithio gyda phartneriaid ar brosiectau allweddol i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau; • Rhoi cyngor ac arweiniad i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ysgolion ac adolygu cynnydd yn flynyddol; • Cyngori a llywio staff ysgol ar faterion cydraddoldeb yn ôl yr angen.
-------------------	-------------------	--

<i>Crefydd a chred</i>	Cadarnhaol	<p>Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb yn bwriadu sicrhau effeithiau cadarnhaol i'r rhai a gwmpesir gan y nodwedd warchoddedig chrefydd a chred. Er enghraifft, rydym wedi mynd ati i ymgysylltu â phobl a gwmpesir gan y nodwedd warchoddedig hon i gyfrannu at ddatblygiad y cynllun a byddwn yn parhau i gefnogi unrhyw gyfranogiad yn y dyfodol mewn unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol sy'n ymwneud â chyflawni'r cynllun hwn a'i amcanion.</p> <p>Ar ben hynny, mae'r cynllun hwn yn nodi camau a fwriedir sydd â'r potensial i gefnogi effeithiau cadarnhaol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesu beth yw ein sefyllfa bresennol fel 'cyflogwr cyfle cyfartal' trwy adolygu amrywiaeth ein gweithlu a nodi camau allweddol i gefnogi gwelliant; • Sicrhau bod aliniad rhwng Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor a'r Strategaeth Datblygu'r Gweithlu; • Mynd ati i hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltu sydd wedi'u hanelu at aelodau'r cyhoedd sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig; • Gweithio gyda phartneriaid ar brosiectau allweddol i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau; • Rhoi cyngor ac arweiniad i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol ysgolion ac adolygu cynnydd yn flynyddol; • Cynghori a llywio staff ysgol ar faterion cydraddoldeb yn ôl yr angen.
------------------------	------------	--

<p><i>Rhyw</i></p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb yn bwriadu sicrhau effeithiau cadarnhaol i'r rhai a gwmpesir gan y nodwedd warchoddedig rhyw.</p> <p>Ar ben hynny, mae'r cynllun hwn yn nodi camau a fwriedir sydd â'r potensial i gefnogi effeithiau cadarnhaol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesu beth yw ein sefyllfa bresennol fel 'cyflogwr cyfle cyfartal' trwy adolygu amrywiaeth ein gweithlu a nodi camau allweddol i gefnogi gwelliant; • Mynd ati i hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltu sydd wedi'u hanelu at aelodau'r cyhoedd sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig.
<p><i>Cyfeiriadedd rhywiol</i></p>	<p>Cadarnhaol</p>	<p>Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb yn bwriadu sicrhau effeithiau cadarnhaol i'r rhai a gwmpesir gan y nodwedd warchoddedig chyfeiriadedd rhywiol.</p> <p>Ar ben hynny, mae'r cynllun hwn yn nodi camau a fwriedir sydd â'r potensial i gefnogi effeithiau cadarnhaol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Asesu beth yw ein sefyllfa bresennol fel 'cyflogwr cyfle cyfartal' trwy adolygu amrywiaeth ein gweithlu a nodi camau allweddol i gefnogi gwelliant; • Sicrhau bod aliniad rhwng Cynllun Cydraddoldeb Strategol y Cyngor a'r Strategaeth Datblygu'r Gweithlu; • Mynd ati i hyrwyddo cyfleoedd ymgysylltu sydd wedi'u hanelu at aelodau'r cyhoedd sy'n rhannu nodweddion gwarchoddedig; • Gweithio gyda phartneriaid ar brosiectau allweddol i gefnogi'r rhai sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymunedau; • Rhoi cyngor ac arweiniad i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a chyflwyno Cynlluniau

		<p>Cydraddoldeb Strategol ysgolion ac adolygu cynnydd yn flynyddol;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cymryd rhan mewn ymgyrchoedd cenedlaethol fel 'Cyngorau Balch' sy'n hyrwyddo ac yn dathlu LGBTQ+.
<i>Y Gymraeg</i>	Cadarnhaol	<p>Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'r amcanion cydraddoldeb yn bwriadu sicrhau effaith gadarnhaol ar y nodweddion gwarchoddedig. Fodd bynnag, er nad yw'r Gymraeg yn nodwedd warchoddedig benodol yn Neddf Cydraddoldeb (Cymru) 2010, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor o hyd fodloni ei ofynion o dan Safonau'r Gymraeg yn ogystal â dangos ei ymrwymadau tuag at nod llesiant Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) o 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'. Felly, mae'n ddyletswydd ar y Cyngor beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol.</p> <p>Mae siaradwyr Cymraeg wedi gallu cyfrannu at ddatblygiad y cynllun a byddant yn gallu bod yn rhan o unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol sy'n ymwneud â'r cynllun a'i amcanion.</p>

C.3.1. Gwerthusiad cyffredinol o'r effaith bosibl ar bob nodwedd warchoddedig:

Mae Cynllun Cydraddoldeb Strategol Blaenau Gwent yn bwriadu bod o fudd i ystod o randdeiliaid, gan gynnwys preswylwyr, staff, grwpiau cymunedol, a phobl sy'n gweithio yn yr ardal neu'n ymweld â hi.

Mae ystyriaeth o'r effeithiau posibl ar grwpiau gwarchoddedig wedi'i hymgorffori yn y broses gynllunio ac ymgynghori, ac er bod gwelliannau wedi'u nodi o ganlyniad i'r broses ymgysylltu a chynllunio hon, mae'r broses gyffredinol wedi caniatáu i'r polisi ddangos yr effeithiau cadarnhaol ar bob nodwedd warchoddedig. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio dulliau ymchwil ansoddol a meintiol fel ymgysylltu da â rhanddeiliaid, ochr yn ochr â defnyddio data cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Arsylwadau cychwynnol yw'r rhain a fydd angen gwaith asesu a monitro rheolaidd pellach yn ystod y cyfnod gweithredu gan mai dim ond trosolwg o'n dealltwriaeth gyfredol o effeithiau a buddion posibl ar gyfer grwpiau gwarchoddedig a ddarperir ganddynt. Mae un ffactor arwyddocaol sy'n dod i'r amlwg o'r broses asesu gychwynnol uchod yn tynnu sylw at faterion posibl o ran y diffyg gwybodaeth sydd ar gael yn ymwneud â phobl a grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig, sut maen nhw'n cyrchu gwasanaethau, a beth yw eu hanghenion cymorth.

C.4. Amlinellwch randdeiliaid allweddol y polisi hwn a nodwch pwy y bwriedir i'r polisi elwa:

Y rhanddeiliaid allweddol sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw fel a ganlyn: -

- Trigolion (plant a phobl ifanc; pobl hŷn)
- Staff Cyngor Blaenau Gwent
- Pobl sy'n gweithio ym Mlaenau Gwent
- Pobl sy'n ymweld â Blaenau Gwent

Mewn perthynas â'r categorïau uchod, bwriedir bod o fudd i bawb, ond yn enwedig y rhai a gwmpesir gan un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am unrhyw effeithiau cadarnhaol, niwtral neu andwyol a nodwyd y bydd y cynllun yn eu cael ar bobl â nodweddion gwarchoddedig yn yr adran asesu (sgrinio) gychwynnol o'r asesiad hwn.

C.5. Amlinellwch unrhyw wybodaeth a/neu ymchwil rydych chi wedi'i chasglu sy'n cefnogi'r polisi neu arfer hwn (ystyriwch ffynonellau data sylfaenol ac eilaidd fel data meintiol [Cyfrifiad] a data ansoddol [cyfnodolion ac adroddiadau ymchwil]):

- Cynllun Cydraddoldeb Strategol, 2016-20
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Adroddiad Blynyddol 2017-18
- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Blaenau Gwent, Asesiad Llesiant
- Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, adroddiad 'A yw Cymru'n Decach?' (2018)
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru
- Gwybodaeth o'r Cyfrifiad
- Canlyniadau Arolwg Staff Cyngor Blaenau Gwent

C.6. Amlinellwch y broses ymgynghori/ymgysylltu: (gan gynnwys dull ymgynghori, amcanion a'r gynulleidfa darged)

Ymgysylltiad cychwynnol:

- Gweithgor Craffu Trosolwg Corfforaethol (Mehefin 2019)
- Gadewch i ni siarad am gydraddoldeb a'r rhaglen gynnwys ar gyfer cydraddoldebau (Awst – Medi 2019) (120 o gyfranogwyr)

Targed: Yr holl randdeiliaid

Amcan: Darganfod pam mae cydraddoldeb yn bwysig, nodi unrhyw faterion a beth sy'n wirioneddol bwysig.

Dull: Cymysgedd o ddigwyddiadau/gweithdai ac arolwg ffurfiol. Gyda deunyddiau wedi'u darparu yn Gymraeg/Saesneg a fersiynau hawdd eu deall.

Ymgynghoriad ffurfiol:

- Dywedwch wrthym beth yw eich barn am gydraddoldebau! (Rhagfyr – Ionawr 2020)

Targed: Yr holl randdeiliaid

Amcanion: Derbyn barn ar ein hamcanion cydraddoldeb drafft a'n dull o gyflawni.

Dull: Cymysgedd o ddigwyddiadau / gweithdai / sesiynau ymgysylltu â'r cyhoedd / anfon post at sefydliadau allweddol ac arolwg ffurfiol. Gyda deunyddiau wedi'u darparu yn Gymraeg/Saesneg a fersiynau hawdd eu deall. Er enghraifft, digwyddiad Lleisiau ein Cymoedd (22 Ionawr 2020), a hyrwyddodd y gwaith cadarnhaol sy'n cael ei gyflawni i gefnogi'r agenda gydraddoldeb ac a roddodd gyfle i bobl roi adborth ar ein chwe amcan drafft.

C.7. Amlinellwch unrhyw ymatebion allweddol a chanlyniadau arwyddocaol a ddeilliodd o'r broses ymgynghori ac ymgysylltu:

Caiff crynodeb o newidiadau sylweddol ei ychwanegu ar ôl i'r cyfnod ymgynghori gau (22 Ionawr 2020).

C.8. Amlinellwch sut y bydd y polisi neu arfer hwn yn cael ei gyfleu i'r gymuned ehangach a/neu'r grŵp targed a fwriadwyd:

Mae'r polisi wedi cael i gyfleu i randdeiliaid trwy amrywiaeth o fecanweithiau ymgysylltu/cynnwys:

- Gweithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Cyfarfodydd partneriaeth
- Ymgynghoriad ffurfiol (proses ymgynghori 6 wythnos)
- Trwy'r tîm Cyfathrebu Corfforaethol – cyfryngau cymdeithasol / negeseuon staff / tudalennau gwe Cyngor Blaenau Gwent
- Canolfannau Dysgu Gweithredol
- Llyfrgelloedd
- Fforymau a rhwydweithiau partneriaeth ehangach (fforwm pobl hŷn, fforwm ieuencid, uwch-gyngor plant, is-grŵp ymgysylltu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus)

C.9. Beth yw eich dulliau safonol o gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth (rhaid i wybodaeth fod ar gael mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys hawdd ei deall, Braille, tâp sain/fideo, BSL, gwahanol ieithoedd):

<u>Dulliau cyfathrebu</u>	<u>Oes</u>	<u>Nac oes</u>
Cyfathrebu llafar wyneb yn wyneb	*	
Ffôn	*	
Gwybodaeth argraffedig (e.e. posteri, taflenni ac ati)	*	
Gohebiaeth ysgrifenedig	*	
E-bost	*	
Arall (nodwch):	Rydym hefyd wedi darparu opsiynau i bobl gymryd rhan gan ddefnyddio unrhyw ddulliau o'u dewis, e.e. storiâu, ffotograffau, cerddi.	

C.10. Rhestrwch yr effeithiau cadarnhaol posibl y disgwylir i'r polisi hwn eu cael ar bobl â nodweddion gwarchoddedig (*gellir gweld disgrifiadau cychwynnol o'r effaith ddisgwyliedig ar grwpiau gwarchoddedig yn yr adran asesu (sgrinio) gychwynnol – gweler y nodiadau cyfarwyddyd am enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol*):

Disgwylir nifer o effeithiau cadarnhaol:

- Hyrwyddo cyfle cyfartal a chydaddoldeb trwy weithredu pob amcan
- Gwella cysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau wedi'u targedu
- Mwy o gyfleoedd i ymgysylltu â gwasanaethau lleol i lywio prosesau gwneud penderfyniadau
- Darparu gwasanaethau wedi'u targedu i grwpiau a amlygwyd

C.11 Manylwch ar effaith andwyol ddisgwyliedig y polisi hwn ar bobl â nodweddion gwarchoddedig (*gellir gweld disgrifiadau o'r effaith ddisgwyliedig ar grwpiau gwarchoddedig yn adran 'sgrinio' yr asesiad cychwynnol*):

Ni ragwelir unrhyw effeithiau andwyol, ac ni fu unrhyw effeithiau andwyol trwy gydol y cyfnod o ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Fodd bynnag, cam nesaf y cynllun yw 'gweithredu', a fydd yn cael ei fonitro i sicrhau bod unrhyw effeithiau andwyol posibl yn cael eu rheoli'n briodol a bod camau lliniaru yn cael eu hymgorffori yn y broses. Mae hyder bod y broses ymgynghori ac ymgysylltu wedi anelu at gasglu barn y gymuned gyfan ac y defnyddiwyd y wybodaeth hon i lywio datblygiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

C.12. Os oes unrhyw effeithiau andwyol wedi cael eu nodi, amlinellwch unrhyw gamau lliniaru:

Nid oes unrhyw effeithiau andwyol ar hyn o bryd ac mae'r cynllun yn ei hanfod yn ceisio lliniaru unrhyw effeithiau negyddol ar bobl neu grwpiau a gwmpesir gan un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig.

Bydd cyflwyno'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys datblygu proses newydd ar gyfer asesu'r effaith ar gydraddoldeb sydd hefyd yn ystyried effaith economaidd-gymdeithasol ac sy'n ceisio cryfhau'r mecanweithiau presennol i nodi effeithiau andwyol a mesurau lliniaru priodol.

C.13. A yw'r polisi neu arfer yn cefnogi'r Cyngor i gyflawni ei ddyletswydd statudol i wneud y canlynol:	Ydy	Nac ydy	Esboniwch:
Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt	*		Mae'r broses ddatblygu, yn enwedig trwy'r broses ymgynghori ac ymgysylltu, wedi cynnal dull cynhwysol ac wedi ceisio barn ystod amrywiol o randdeiliaid, gan ganiatáu i grwpiau ddod ynghyd i rannu eu profiadau, eu meddyliau a'u syniadau wrth ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
Hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt	*		Mae'r broses ddatblygu hon wedi annog pawb, waeth beth fo'u cefndir a'u statws, i gyfrannu eu syniadau a'u meddyliau at y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.
Dileu gwahaniaethu anghyfreithlon ac ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf	*		Mae'r broses ddatblygu hon wedi annog pawb, waeth beth fo'u cefndir a'u statws, i gyfrannu eu syniadau a'u meddyliau at y Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

C.14. A oes unrhyw oblygiadau penodol o ran adnoddau sy'n gysylltiedig â'r polisi hwn:

Oes, mae'n ddyletswydd ar Gyngor Blaenau Gwent ddarparu adnoddau effeithiol ar gyfer datblygu a gweithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Bydd rhai rhannau o'r cynllun yn cael eu cyflwyno ar y cyd mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol.

C.15. Os oes unrhyw newidiadau i'r polisi wedi'u rhoi ar waith o ganlyniad i'r broses asesu, rhowch fanylion (dylid ystyried canlyniadau'r broses ymgynghori a thueddiadau mewn data sylfaenol ac eilaidd, ynghyd â themâu eraill a nodwyd yn y broses o asesu'r polisi):

Bydd manylion yn dilyn diwedd y broses ymgynghori ffurfiol.

C.16. Ar ôl ystyried pob elfen o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb uchod, nodwch eich penderfyniad mewn perthynas â gweithredu'r polisi:	
Gwrthod y newidiadau arfaethedig (rhaid bod gennych gyfiawnhad gwrthrychol i wneud hyn)	
Derbyn y newidiadau arfaethedig a gwneud newidiadau perthnasol	
Parhau â'r polisi heb fawr o newidiadau	
Nid oes angen newidiadau; nid oes posibilrwydd y bydd y polisi yn gwahaniaethu	*
Rhoi pen ar y polisi gan fod posibilrwydd y bydd yn arwain at wahaniaethu anghyfreithlon	
C.16.1. Rhowch unrhyw fanylion perthnasol am eich penderfyniad:	
<p>Roedd y polisi'n destun proses ymgynghori ac ymgysylltu drylwyr, ac mae wedi defnyddio ystod o waith ymchwil a data i lywio datblygiad y cynllun. Mae datblygiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ystyried barn rhanddeiliaid perthnasol a bydd y gwaith o weithredu'r cynllun yn ceisio hybu a hyrwyddo'r agenda gydraddoldeb. Yn ôl pob golwg, bydd cyflwyno'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar bobl neu grwpiau a gwmpesir gan un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig.</p> <p>Rydym yn fodlon nad oes angen unrhyw newidiadau pellach i gyfrannu at leihau gwahaniaethu gan nad oes unrhyw bosibilrwydd y bydd ei gyhoeddi a'i weithredu yn achosi gwahaniaethu anghyfreithlon.</p>	

C.17. Gwerthusiad cyffredinol / crynodeb o'r asesiad (<i>dylid cynnwys canfyddiadau arwyddocaol a chymau a gymerwyd fel rhan o'r broses</i>)
<p>Mae datblygiad y Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn bodloni gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb (Cymru) i baratoi cynllun cydraddoldeb strategol ac amcanion cydraddoldeb bob pedair blynedd, ac i ddatblygiad y cynllun gael ei lywio gan adborth i ymgynghoriad a ddarperir gan randdeiliaid sydd â diddordeb yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau Cyngor Blaenau Gwent a chyflawni ei swyddogaethau.</p> <p>Gellir gweld hyn trwy'r rhaglen ymgysylltu a chynnwys gynhwysfawr sydd wedi cefnogi ei ddatblygiad.</p> <p>Yn ddiodyfyn, mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ceisio hybu a hyrwyddo'r agenda gydraddoldeb mewn modd cadarnhaol. At hynny, bydd y gwaith o'i gyflwyno yn defnyddio mecanweithiau da ar gyfer monitro ac adolygu ac mae'n cynnwys cynlluniau i ddatblygu proses asesu'r effaith ar gydraddoldeb sydd wedi'i chryfhau sy'n ceisio nodi unrhyw effaith gadarnhaol/negyddol/andwyol ar bobl neu grwpiau a gwmpesir gan un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig yn ogystal â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol newydd sy'n cael ei rhoi ar awdurdodau lleol o fis Ebrill 2020.</p>